CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 282 - 60c
Ebrill 2010

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Timothy a Dylan yn Gymrodyr

Tudalen 22

Cadwyn arall o gyfrinachau

Tudalen 13

Canlyniadau Eisteddfodau Rhanbarth

Tudalennau 2, 18 a 21

Plant lleol ar eu ffordd i Lanerchaeron

Ysgol Ffynnonbedr - Parti Deulais 1af [Francesca yn absennol o'r llun]

Adran Llambed – Parti Canu Adran 1af â'r Grŵp Llefaru 3ydd

Charlotte Saunders, Ysgol Ffynnonbedr – Unawd Bl. 3 a 4 1af a Disgo Unigol 2il

Ysgol Ffynnonbedr - Dawns Cyfrwng Cymysg 1af

Chris Ashton ac Aled Wyn Thomas, 1af ar y ddeuawd dan 19oed.

Grŵp Dawns Creadigol Ysgol Cwrtnewydd Bl 6 ac Iau 1af

Grŵp Aelwyd yr Urdd Llambed - Parti Deulais 1af , Parti Cerdd Dant 1af a Grŵp Llefaru 2il

Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Ceredigion 2010

Elin Davies, Ysgol Cwrtnewydd 2il Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4



Meirion Siôn Thomas, Adran Llambed – 2il Cerdd Dant Bl. 5 a 6 a 2il Llefaru Bl. 5 a 6



Joseph Saunders, Ysgol Ffynnonbedr – 2il Unawd Bl. 2 ac Iau

Lewis Jarvis-Blower, Ysgol Llanwnnen 3ydd Llefaru Bl. 3 a 4 i ddysgwyr.

Ymgom Ysgol Cwrtnewydd 2il - Iwan Evans; Briallt Williams; Alpha Jones a Rhys Davies

Tri o aelodau Aelwyd Llambed a fydd yn mynd ymlaen i Eisteddfod yr Urdd Llanerchaeron, daeth Gwawr Hatcher yn gyntaf ar yr Alaw Werin Bl 7, 8 a 9; Aled Wyn Thomas yn gyntaf Unawd Bechgyn Bl. 10 a dan 19 oed a Elliw Dafydd yn gyntaf ar y Monolog Bl. 10 a dan 19 oed.

Grŵp Dawnsio Disgo – Ysgol Ffynnonbedr 2il

Dawns Werin Bl. 6 ac Iau [ysgolion a dros 100 o blant – Ysgol Ffynnonbedr 2il

Cân Actol i ysgolion hyd at 100 o blant – Ysgol Llanllwni 2il

Grŵp Cerddoriaeth Creadigol – Ysgol Llanwnnen 2il

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Ebrill a Mai:	Rhian Lloyd, 12 Bro Ddewi, Ffosyffin	01545 571234
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan	
Dylunydd:	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: **www.facebook.com/clonc**
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Unffurfiaeth.

Byddwn yn derbyn llefrith o Laethdy'r Dolau (Highmead Dairies), un a chapan glas i fi, ac un a chapan coch i weddill y teulu. Dros y Sul roedd yr wyres gyda ni, dyma edrych ar y ddwy botel ac meddai "Pa un o'r rhain yw'r llaeth gwyrdd?" Roedd yn rhaid chwerthin ond mae'n dangos yn eglur fod rhaid i bawb geisio dilyn un ffurf – ond mae'n drueni colli ambell i berl o gwestiwn.

Gyrru Gofalus.

Mae storïau am yrwyr o'r gorffennol yn werth eu cofio. Nid y rhai cyflym ond y rhai gor-ofalus. Roedd hanesion brith am hen brifathro Cwmann; yn cael ei gyfrif yn yrrwr gofalus ond yn araf iawn; yn aros i gynnig reid i gymydog iddo oedd yn byw ger tafarn y Ram ac yn cerdded am adre dros y bont yn Llambed. Y cerddwr yn troi ato ac yn dweud, "Dim heddi Mr Jones, ma hast arna i!"

Cofiaf am Y Parch Dafydd Jones oedd yn weinidog ym Maesyffynnon a Llwynygroes; Mrs Jones oedd yn gyrru'r Austin 7 ond Y Parch oedd yn rhoi'r gorchmynion. Ai gwir neu beidio, roeddem ni'r plant yn cael ar ddeall fod gorchymyn i Mrs Jones aros cyn ambell i dro, ac iddi hi orfod cerdded ymlaen i weld a oedd y ffordd yn glir cyn dychwelyd a pharhau ar y daith.

Beth am ddod a'ch hanesion chi am gymeriadau – yn enwedig y rheini am ddigwyddiadau digri wrth geisio pasio'r prawf gyrru.

Y Fro Gymraeg.

Bu cyn trafod ar raglen ar BBC Cymru yn seiliedig ar Langeitho. Dirywiad yn nifer y bobol oedd yn siarad Cymraeg a'r syniad yn cael ei roi am ddatblygu ardal lle'r oedd y trigolion i gyd yn siarad Cymraeg. Y farn gyffredinol oedd, nad oedd hyn yn mynd i weithio. Yr hyn a wnaed yn hollol glir oedd bod yn rhaid i bawb ddefnyddio'r iaith ar bob cyfle sy'n bosibl. Tybed a ydi'r syniadau sy'n deillio o drefi yn 'gefeillio' yn apelio atoch chi? A ydi cael enw Ffrengig, llathed a hanner o hyd, ar y 'Parc Bach' yn golygu rhywbeth i chi? Yn bersonol - cario mlaen i hyrwyddo Cymreictod y dre sydd bwysicaf - yn fy nhyb i!

Cymrodyr haeddiannol.

Llongyfarchiadau i Brifysgol Llambed am ddewis dau berson lleol i dderbyn yr anrhydedd o 'Gymrodyr y Brifysgol'. Dau sydd wedi llwyddo i ddod ag enwogrwydd i Lambed ac i'w pentrefi. Timothy Evans, heb anghofio'i wreiddiau yn Silian, a Dylan Iorwerth wedi dod yn Gardi trwy fod yn weithgar yn Llanwnnen ac yng Nghapel y Groes, ynghyd â sefydlu 'Golwg' o fewn y dre. Ffordd fendigedig o ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn y Brifysgol.

Y daith i Aber yn wahanol.

Ydi, mae'r 'rhyd' yn Llanrhystud yn cau. Diau fod 'Iechyd a Diogelwch' yn gweld problem yn codi. Cyn rhoi clwydi pob ochr i'r afon, ni fel gyrwyr oedd yn gwneud y penderfyniad a oedd hi'n ddiogel croesi neu beidio. Wrth roi clwydi a'u gadael ar agor roeddem fel petaem yn cael caniatâd i groesi. Dyma'r perygl wedyn y byddai gyrwyr anghyfrifol yn cymeryd yn ganiataol fod rhwydd hynt iddynt groesi.

Hwyl! *Cloncyn.*

Cywiriad

Ymddangosodd gwybodaeth anghywir o dan newyddion Eisteddfod yr Ysgol Gyfun yn y rhifyn diwethaf. Ymddiheuriadau am hynny.

Roedd y gadair yn rhoddedig gan Graham a Dilwen Watkins, 3 Heol-y-Gaer, Llanybydder, er cof am eu hwyres Siân Watkins.

Lawnsio Llyfr Bryncerdin

Ar nos Iau Mawrth 25ain, yn neuadd Ysgol Gynradd Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, cynhaliwyd noson go arbennig i lawnsio 'Bryncerdin ac Emynau Eraill', sef llyfryn o emynau cyfoes gan Gerald Morgan, Hafod Wen, Tregaron.

Croesawyd y dyrfa niferus a ddaeth ynghyd i'r noson gan Gareth Jones, ac yna cyflwynwyd chwech o'r emynau yn eu tro gan yr awdur a'u perfformio'n ganmoladwy iawn gan gantorion o ardaloedd Aberystwyth, Tregaron a Llanbedr Pont Steffan ar ffurf un deuawd, un triawd, tri pedwarawd ac un wythawd.

Ar ôl gair o ddiolch i bawb a fu'n gysylltiedig gydag argraffiad y llyfryn, ac i bawb a wnaeth y noson yn lwyddiant ysgubol, cyd-ganwyd yr emyn adnabyddus 'Diolch i Ti, Yr Hollalluog Dduw' i gloi'r lawnsiad.

Mae'r gyfrol yn costio £2.00, a rhoddir punt o werthiant bob copi fel cyfraniad tuag at Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010.



Yn y llun gwelir awdur 'Bryncerdin ac Emynau Eraill', Gerald Morgan, yn cyflwyno'r llyfryn i Dorian Jones, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Llanbedr Pont Steffan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010.

Pasg Hapus

i holl ddarllenwyr CLONC

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 01570 423244

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Lango

Talfyriad yw Lango o Blaengofuarth ac mae'r enw yn digwydd yng nghofnodion yr Archifdy Gwladol yn 1640. Yno sonnir am 'dir blaen goviarth'. Rydym wedi ystyried arwyddocâd yr enw 'blaen' yn y golofn hon rai misoedd yn ôl: mae'n cyfeirio at darddle afon ac at yr ucheldir. Yn Blaengofuarth, 'go' a 'buarth' yw'r elfennau yn ail hanner yr enw. Mae nant fechan, Gofuarth yn tarddu ym Mlaengofuarth ac yn llifo i Afon Marlais yn Abergofuarth i'r gogledd o Lansawel.

Mae 'buarth' yn elfen mewn amryw enwau lleoedd yn yr ardal hon a llawer o'r enwau hyn yn digwydd ar yr ucheldiroedd. Yno ar yr ucheldir, roedd yn arfer gan ein cyndeidiau gadw gyrroedd o wartheg a greoedd o feirch a chesig a'u crynhoi i fuarth neu ffald i'w hatal rhag crwydro.

Rydym, eisoes, wedi trafod yr enw Buarth-y-re ger Llanybydder. Mae'r elfen 'gre' yn digwydd yn gyffredin mewn enwau lleoedd ac mae'n dynodi haid neu yrr o feirch a chesig magu. Ceid Buarthllwni ger Llanllwni. Ym Muarth-y-blaidd, ar yr ucheldir rhwng Rhydcymerau a Llansawel, yr oedd cartref un o hen deuluoedd bonheddig gogledd Sir Gaerfyrddin – teulu Lloyd.

Diflannu gwnaeth Buarthllwni, Buarth-y-blaidd a Buarth-y-re erbyn hyn ond erys Blaengofuarth a'r cof am y dyddiadurwr difyr Defi Lango.

Llifin

Nant fechan yw hon sy'n codi ar y mynydd-dir rhwng Afon Melindwr ac Afon Marlais; mae'n rhedeg heibio i Esgairlifin (Lifing) i ymuno ag Afon Marlais ychydig i'r gogledd orllewin o Lansawel. Mae'n debygol y dylid cydio'r elfen gyntaf wrth 'llif' sef llifeiriant a hwnnw'n cyfeirio at rediad gwyllt y nant. Dilynir y bôn gan yr olddodiad –in a welir mewn enwau afonydd megis Hirin (Cwm Elan) ac Erthin (Cilcennin).

Mae'n siŵr mae'r un elfen a geir yn enw nant fechan a elwir Llifan sy'n rhedeg heibio i Glanllifan gerllaw Corris yn Sir Feirionnydd. Yn yr achos hwn dilynir y bôn 'llif' gan yr olddodiad -ân a welir mewn enwau afonydd megis Gwthan (Llangeler) a Gafran (Eglwyswrw).

Gwarcefel

Bydd llawer ohonom yn gyfarwydd â gweld yr enw Gwarcefel yng nghyffiniau Pren-gwyn, Llandysul. Y ffurf hynaf ar yr enw y gwn i amdano yw Gwarallt Keveil (1564). Mae'r elfennau yn cael eu dangos yn eglur iawn yn y ffurf honno: 'gwar' sef man uwchlaw a thu cefn i rywbeth ac 'allt' sef llechwedd, llechwedd goediog'. Mae 'cefail' yn fwy anodd: 'cefel' yw'r ffurf lafar a dyna'r ffurf ar fapiau'r Arolwg Ordnans yn ogystal. Mae Nant Cefel yn tarddu ger Blaencefel ac yn ymuno ag Afon Cerdin ger Abercefel. Yr un elfen a geir yn Trecefel ger Tregaron.

Mae'n ddigon posibl y dylid cysylltu 'cefel, cefail' â'r 'cyfail-' a geir yn 'cyfeilio' sef plethu ynghyd; disgrifiad a geir yma felly o ddyfroedd y nant yn gweu ei ffordd ar hyd gwely'r afon.

Esgair Fraith

Mae 'esgair' yn enw diddorol: gall ddynodi coes neu aelod arall o'r corff dynol. Dynodi nodwedd dirweddol a wna yn Esgair Fraith, wrth gwrs, sef braich hir o dir mynydd. 'Ysmotiog' neu 'brychlyd' yw ystyr yr ail elfen ac mewn enwau lleoedd bydd yn cyfeirio'n aml iawn at dir ansawdd gwael ac o natur gerigog. Deallaf fod Cerddwyr Pencarreg wedi dysgu'r wers honno eisoes.

Y tro nesaf cawn gyfle i fanylu ar ystyr Blaenpennal.

O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn

Mae'n siŵr ein bod oll wedi clywed erbyn hyn y bydd cynnydd o 2.9% yn nhreth y Cyngor. Yn ystod yr wythnosau a arweiniodd at y cyhoeddiad cawsom Meryl Gravell a'i hadlais yn Siambr y Cyngor, Kevin Madge, yn darogan gwae - cynnydd o 10% yn y dreth, medd y naill, cynnydd o 12% medd y llall. Amenio cynnydd o 2.9% wnaeth yr Annibynwyr Llafur. Yr awgrym, felly, yw y byddai'r cynnydd wedi bod llawer yn uwch oni bai am ddadleuon grymus yr wrthblaid.

Mewn arian go iawn golyga hyn mai yn Sir Gâr y gwelir y biliau treth uchaf yn nhair sir gorllewin Cymru eleni - ychydig dan £300 yn uwch na'r taliadau a wneir gan drethdalwyr Ceredigion a Phenfro. Amenio'r cynnydd a wnaeth Annibynwyr Llafur Sir Gâr.

Mor wahanol yw trefn ein cynghorau cymuned. Ni welodd Pryfyn adroddiad am yr un cyngor cymuned yn argymell cynnydd yn y dreth gymunedol. Dyma fantais fawr cael dwylo profiadol, lleol wrth y llyw. Yr ymadrodd a ddefnyddiau un hen gydnabod imi oedd ei bod yn 'rhy hwyr cynilo wedi cyrraedd tin y cwd'. Ac wedi cyrraedd tin y cwd, beth ellir ei wneud ond amenio'r cynnydd uchaf yn y dreth yn siroedd y de orllewin.

A rhaid cofio mai dyma'r annibendod a fydd gennym am gyfnod eto. Cyngor o Annibynwyr Llafur wrthi'n gwario'n uwch na graddfa chwyddiant am eu bod nhw wedi bod braidd yn ddi-glem yn gwario tan iddyn nhw weld tin y cwd. A gweithwyr cyffredin y cyngor sy'n gwneud jobyn da o waith ar lawr gwlad, fydd dan y lach.

Ac mae trefniadaeth addysg yng ngogledd y sir wedi codi ei ben eto. Gwastraffwyd miloedd o bunnoedd o arian y trethdalwyr yn llogi ymgynghorwyr i werthuso 14 safleoedd posib ar gyfer ysgol newydd yn Ninefwr. Ond roedd y cyfarwyddyd a roddwyd i'r ymgynghorwyr yn llwyr anwybyddu cyfrwng yr addysg honno. Wrth wneud hynny, mae'r cyngor yn anwybyddu ei bolisi'r ei hun, a pholisi Llywodraeth Cymru ac felly yn arddel casgliadau annilys.

Camarweiniwyd rhieni gogledd y sir hefyd ynghylch lleoliad posib ysgol newydd. Dywedwyd wrth bobl ardal Llanymddyfri y byddai unrhyw ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, yn ôl pob tebyg, yn ardal Llangadog, tua hanner ffordd rhwng y ddwy ysgol bresennol.

A bellach mae arweinwyr y cyngor yn gwrthod caniatáu i'r cyngor llawn leisio barn ar unrhyw agwedd o'r cynllun ad-drefnu. Mae'r rheswm dros hyn yn amlwg ddigon. Annibynwyr Llafur yw mwyafrif cynghorwyr ardal yr ad-drefnu. Ac maen nhw'n cael eu gwasgu o ddau gyfeiriad: gan ddymuniadau trethdalwyr o rieni ar y naill ochr ac ar yr ochr arall ni feiddian nhw ddim pleidleisio yn wahanol i ddymuniadau'r arweinydd.

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

EBRILL

9 Dosbarth Cadw'n Heini gyda J's Workout bob nos Wener o 8 - 9 yn Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni cost £3.50.
11 Rihyrsal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed ym Methel Cwm Pedol am 3:15y.p.
14 Gyrfa Chwist Hafan Deg.
16 Dosbarth Cadw'n Heini gyda J's Workout bob nos Wener o 8 - 9 yn Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni cost £3.50.
25 Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Llwynrhydowen, Rhydowen am 2.00y.p. a 5:30y.h. Croeso cynnes i bawb.
26 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Mai.
27 Gyrfa Chwist yn y Llew Du, Llanybydder am 8:00y.h. Elw at elusennau lleol.
28 Gyrfa Chwist Hafan Deg.

MAI

1 Noson yng nghwmni Dewi Pws, Ryland Teifi, Roisin Clansy Davies, Radwm a Sesh Mawr yn y Llew Du Llanybydder. Elw tuag at yr Ambiwlans Awyr Cymru ac M.S. Cymru Tocynnau gan Doreen (480461) a Delyth (480577).
1 Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg. Am fanylion cysylltwch ag Emyr Griffiths ar 01545 590383 neu Janice Davies ar 01545 590318.
1 Te Fictorianaidd yn Ysgol Llanllwni i ddathlu 140 o flynyddoedd o addysg o 1:00 tan 4:00. Dewch yn llu.
3 Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd am 12.30y.p.
3 Noson Helfa Drysor gyda C.Ff.I Llanwenog. Dechrau yn ysgol Llanwenog 6:30-7:30y.h. Croeso cynnes i bawb.
3 Helfa Drysor C.Ff.I Llanwenog i'w ddechrau 6:30-7:30y.h. Croeso cynnes i bawb.
4 **Cyfarfod Blynyddol CLONC yn y Belle Vue, Llanllwni am 7.**
7 Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Capel Aberduar am 7y.h.
9 Rihyrsal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed yn Bethel Silian am 2:00y.p.
14 Dosbarth Cadw'n Heini gyda J's Workout bob nos Wener o 8 - 9 yn Neuadd Cymundol Eglwys Llanllwni cost £3.50.
16 Rihyrsal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed yn Salem, Caio am 2:30y.p. a 6:00y.h.
16 Ras fynydd Sarn Helen 16.5 milltir yng Nghlwb Rygbi Llambed.
17 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Mehefin.
22 Rali C.Ff.I. Ceredigion.
31 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion ar stad Llanerchaeron.

MEHEFIN

1-5 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion yn Llanerchaeron.
11 Côr Cwmann yn trefnu Cyngerdd yn Neuadd Felinfach am 8y.h. gyda Timothy Evans, Kees Huysmas, Dai Jones ac eraill. Elw at Apêl Sioe'r Cardis.
12 *Ball* CFfI Cwmann, Prifysgol Llanbedr Pont Steffan
21 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf.
25 Rasys Sarn Helen yn Ysgol Gynradd Felinfach.
26 Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog.

GORFFENNAF

2 Ffair Haf Ysgol Llanwnnen am 4:00y.p.
3 Cangen NSPCC Llanybydder yn trefnu Dawns Haf yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, am 7.30y.h. Tocynnau ar gael wrth Ann Smith 01570 480306 neu Linda Davies 01570 480054. Yr elw yn mynd tuag at yr NSPCC
19 – 22 Sioe Frenhinol Cymru – Sioe'r Cardis.

AWST

13 Sioe Llambed.
14 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychbant.

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach.
£30.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

Colofn y C.Ff.I.

Penwythnos Cymraeg C.Ff.I. Cymru

Cymerodd nifer o aelodau'r Sir ran ym mhenwythnos Cystadlaethau Cymraeg CFfI Cymru a gynhaliwyd dros benwythnos 26/27 Chwefror a oedd wedi ei gynnal gan Ffederasiwn Meirionnydd. Daeth llwyddiant o fewn yr Adran Siarad Cyhoeddus:

Dan 14 oed – Cydradd 3ydd - Bethan Green, Caerwedros; Lowri Davies, Dihewyd ac Elen Davies, Pontsian

Dan 21 oed – 1af Enfys Hatcher, Llanwenog; Catrin Jones, Pontsian; Rhodri Hughes, Llanddeiniol a Catrin Haf Jones, Mydroilyn.

Dan 26 oed – 1af Einir Ryder, Pontsian; Wyn Thomas, Pontsian; Lowri Jones, Caerwedros; Sara Downes, Llangeitho a Cerys Jones, Llanwenog.

Canlyniad Terfynol – 2il.

Hefyd daeth llwyddiant i'r Sir yng nghystadleuaeth y Ddrama. Daeth Ceredigion yn gydradd trydydd gyda Tristan Jones, Caerwedros yn ennill yr actor gorau. Llongyfarchiadau i bawb.

Dawns Dewis Swyddogion Ceredigion

Cynhaliwyd dawns dewis Swyddogion eleni ar y 5ed o Fawrth yng ngwesty Tyglyn Aeron er mwyn cyhoeddi'r aelodau a chafodd eu penodi fel swyddogion newydd y Sir am y flwyddyn 2010-2011.

Brenhines – Sara Downes, Llangeitho
Ffarmwr Ifanc - Wyn Thomas, Pontsian
Morwynion - Gwenan Davies, Llanwenog; Caryl Haf, Llanddewi Brefi; Meira Lloyd, Llangeitho a Teleri Morris-Thomas, Pontsian
Llongyfarchiadau a phob lwc iddynt am y flwyddyn nesaf.

Penwythnos Saesneg C.Ff.I. Cymru

Cymerodd rhai o aelodau'r Sir ran ym mhenwythnos Cystadlaethau Saesneg CFfI Cymru a gynhaliwyd dros penwythnos 5/6 o Fawrth a gafodd ei westeio gan Ffederasiwn Brycheiniog. Diolch i bawb a fu'n cystadlu.

Canlyniadau:

Dan 16 oed – 3ydd Morgan Davies, Mydroilyn; Sian Downes, Llangeitho Heini Phillips, Llangeitho. Canlyniad Terfynol: 7fed.

C.Ff.I Ceredigion - Dathliad 70 mlynedd

Mae'r Sir yn dathlu 70 mlynedd o fodolaeth yn 2011 ac felly ar ôl y cyfarfodydd diweddar mae'r digwyddiadau canlynol wedi ei drefnu.

24/25 Mehefin 2011- Splash
2 Medi 2011 – Lawnsiad y llyfr Dathlu & Sioe Ffasiwn, Prifysgol Llambed
15-17 Medi 2011 – Sioe'r Dathlu, Theatr Felinfach
4 Rhagfyr 2011 – Gymanfa Garolau, Aberaeron
30 Mehefin 2012 – Cinio'r Dathlu, Pontrhydfendigaid

Os oes gennych unrhyw hen luniau/video/DVD neu wybodaeth cyffredinol cysylltwch gyda Mared neu Ann yn y swyddfa ar 01545 571 333 neu e-bostiwch ar ceredigion@yfc-wales.org.uk

Clwb 200 - mis Chwefror:- Dennis Davies, Esgairddedwydd, Pontsian; Eirlys Lloyd, Dolfarian, Llanfarian ac Alan Morgan, Llwynbedw, Llanbedr Pont Steffan

Clwb 200 mis Mawrth:- J Mansel Jones, Hawelfan; Emyr James, Penygeulan, Aberystwyth a Margaret George Evans, Maesteg, Tregaron

Dyddiadau i'ch Dyddiaduron!

Ebrill 4 – Diwrnod Hwylus Sul y Pasg, Clwb Rygbi Aberaeron
Ebrill 9 – Gala Nofio'r Sir, Canolfan Hamdden Aberaeron
Ebrill 10 - Diwrnod Maes Cymru, Llanymddyfri
Ebrill 16 - Cinio'r Cadeirydd, Prifysgol Llanbedr Pont Steffan
Ebrill 23-25 – Penwythnos C.C.B Ff.C.C.Ff.I Torquay

D & C Rallying
Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4
Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT
* Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs *
Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

O'r Cynghorau Bro

Cyngor Cymuned Llangybi

Cadeirydd: David Jones; Clerc: Mrs Mair Spate; Cynghorydd Sir: Odwyn Davies

Cyfarfu'r Cyngor ar 24 Chwefror yn Ysgol Y Dderi

Yn ystod y cyfarfod cafwyd anerchiad yn llawn gwybodaeth ac yn cynnwys lluniau gan Mr Digby Bevan, Swyddog Tai Fforddiadwy Cyngor Sir Ceredigion. Eglurodd yn fanwl i'r cynghorwyr y gwahanol weithgareddau sydd yn ymwneud â'r cynllun hwn.

Rhoddwyd rhoddion i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ysgol Y Dderi, Clwb Mês Bach a Ffermwyr Ifanc Bro'r Dderi.

Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Jones; Clerc: Eirlys Davies; Gohebydd y Wasg: Dewi Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans

Cyfarfu'r Cyngor ar 8 Mawrth 2010

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn Neuadd y Gymuned.

Cadarnhawyd bod Tom Jones wedi archwilio'r maes chwarae â'r adnoddau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Roedd angen bin sbwriel newydd yno. Penderfynwyd bod Eric Davies yn mynd i'r afael â'r mater.

Roedd y gwaith o drwsio'r hewl ger yr Horse and Jockey wedi ei orffen. Diolchwyd i Linda Evans am roi sylw i'r pwnc.

Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r cyfreithiwr Ruth Thomas i drafod trosglwyddo'r Cae Chwarae i ofal y Cyngor Bro. Roedd angen mynd â'r gweithredoedd at cyfreithiwr er mwyn i'r gwaith gael ei gwblhau.

Derbyniwyd gwybodaeth am ffermydd gwynt arfaethedig yn ardal Llansawel a Brechfa.

Ymhlith yr achosion y penderfynwyd eu cefnogi yr oedd: Cymorth i Fenywod yng Nghaerfyrddin; Gŵyl Cerdd Dant Cwm Gwendraeth 2011; Aren Cymru.

Penderfynwyd casglu sbwriel o fewn y plwyf, nos Fercher 14 Ebrill 2010 am 7–7.30 y.h. Mae croeso i bawb ymuno â'r cynghorwyr a chwrdd ger y Belle.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, 10 Mai 2010 am 8yh.

Cyngor Tref Llambed

Maer: Selwyn Walters; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams.

Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Chwefror 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Cyn i'r cyfarfod ddechrau cafwyd cyflwyniad gan Mr Ru Hartwell, Cyfarwyddwr 'Treeflights', corf sy'n ceisio cwtogi allyriadu carbon.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd ac offrymwyd gweddi gan y Cyng Mason-George.

Trafodwyd amryw bynciau perthnasol i drafnidiaeth yn y dref yn arbennig yr anawsterau presennol ar Ffordd y Porthmyn a'r cynnydd yn y drafnidiaeth a ddisgwylid adeg cynnal Eisteddfod yr Urdd yn Llannerch Aeron.

Nid oedd rhagor o wybodaeth wedi dod i law am barth dialcohol Llambed.

Derbyniwyd llythyron derbyn eu hethol gan y Dirprwy Faer Rob Phillips a'i Ddirprwy Hag Harris.

Bu cryn drafodaeth am y rhodd o £11,500. Penderfynwyd eisoes ei wario er lles pobl ieuanc y dref ond roedd yn anodd, ar hyn o bryd, weld beth fyddai'r dull mwyaf manteisiol ac effeithiol o wario'r arian. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn y dyfodol agos i drafod ymarferoldeb y cynlluniau a oedd wedi'u rhoi gerbron.

Bydd y Cyngor Sir yn gyfrifol am gost yr arwydd 'Clos Glyndwr'.

Roedd y Cyngor yn awyddus i'r drefn bresennol am gynrychiolaeth ar y Cyngor Sir barhau ac wedi hysbysu'r Cynulliad o'r farn honno.

Roedd cyfarfod wedi ei drefnu gyda chynrychiolydd o'r Cyngor Sir i weld a oedd modd gwella cyflwr y ffynnon ar Sgwâr Harford.

Penderfynwyd gwahodd Mrs Cheryl Jones i roi cyflwyniad i'r Cyngor ar Gancr y Coluddyn yng nghyfarfod mis Mawrth.

Byddai'r Cyngor yn cysylltu â Mr Roger Clive-Powell i weld a fyddai modd hwyluso tramwy yng nghyffiniau hen neuadd y dref.

Penderfynwyd cefnogi Sgowtiaid Llambed yn eu cais i wella eu cyfleusterau yn Heol yr Eglwys.

Cynhelir Gŵyl Fwyd Llambed ddydd Sadwrn 24 Gorffennaf 2010.

Enillydd Cadair
Ysgol Gyfun Llambed

HUD

Enaid o fewn bywyd.
Bywyd o fewn corff

Rhes o gerrig beddau'n gefn
Yn rhoi siâp i'r fframwaith
Fel angor yn sail i'r wyrth

Rhyfeddod y baban perffaith.
Cymeriad yn barod i'w ddatblygu,
A'i rinweddau'n ddwfn yn y cnawd,
Ni all weithred dyn ei newid.

Pob cyhyr a'i swydd bersonol
Pob asgwrn yn llawn daioni
Pob cell yn cydweithio
Pob system yn cydlynu

Llif coch yn llifeirio bywyd
Cynnal peirianneg y corff
Rhyfeddod natur ddynol

Ond pan hollta'r cerrig
Pan arafa'r llif
Cilia'r hud

Daw hudoliaeth bywyd yn atgof melys,
Yn rhan o'r gorffennol,
Yn hen hanes.

Elliw Dafydd

Enillydd Cadair
Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi

HUD

Yn yr oriau mân,
glaniodd un bluen unig
a'r addewid o fyd gwyn
gan gyffroi dychymyg plentyn.
Fel y pibydd brith,
swynodd ei chriw ati
a'u dal i chwarae yn eu penysgafnder
diniwed.

Yn nhawelwch swynol y gerddoriaeth fud,
llonyddwyd ni.

Ond pan ddaeth y glaw i glatsio
a sobri
a boddi rhith melodi'r bib,
diflannodd yr eira a'u hud
i ddisgord y cysgodion.

Guto Gwilym

Rhifyn mis Mai
Yn y Siopau
Mai 6ed
Erthyglau i law erbyn
Ebrill 22ain
Newyddion i law erbyn
Ebrill 26ain

Pasg Hapus

i holl ddarllenwyr CLONC

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Fe ymwelodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, Jocelyn Davies AC, ag Aberystwyth yn ddiweddar i gyhoeddi y bydd buddsoddiad gwerth £10.3 miliwn ar gael dros y tair blynedd nesaf er mwyn datblygu'r dref. Roeddwn yn falch iawn i ymuno â'r Gweinidog ar gyfer ei chyhoeddiad, ac rwy'n gobeithio y bydd y buddsoddiad yn rhoi hwb i economi'r dref a'r ardal ehangach. Fe fydd y cynlluniau i adfywio'r dref yn canolbwyntio ar wahanol themâu ac ardaloedd megis y prom, tai, cyflogaeth a theithio; a'r gobaith y bydd y datblygu yn cadarnhau Aberystwyth fel prif dref y Canolbarth.

Ymwelais âg Ysgol Gynradd Lledrod yn ddiweddar i weld paneli solar sydd wedi cael eu gosod yno gyda nawdd Nwy Prydain. Mae disgyblion yr ysgol wedi bod yn gweithio tuag at leihau ôl carbon yr adeilad, ac roeddwn yn falch i weld brwdfrydedd y plant i amddiffyn yr amgylchedd rhag newid yn yr hinsawdd.

Dros yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi cwrdd gyda chynrychiolwyr o bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer 'Aberystwyth a Phenparcau' a 'Tregaron a'r Ucheldir'. Yn ystod y cyfarfodydd, fe glywais mwy ynghylch gwaith y partneriaethau a'r prosiectau maent yn gweithio arnynt ar hyn o bryd. Roeddwn hefyd yn falch i fedru cwrdd â rhai o drigolion Penparcau yn y Senedd yn ddiweddar tra eu bod ar daith i Fae Caerdydd oedd wedi ei threfnu gan Gymunedau'n Gyntaf.

Fe fynychais dau ddathliad i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn ddiweddar. Yn gyntaf, fe gynhaliwyd cinio ym Mhlasty Rhosygilwen yng Nghilgerran ger Aberteifi i ddathlu'r diwrnod. Fe wnes hefyd ymuno â rhai aelodau o Sefydliad y Merched wrth iddynt gerdded o Bont Trefechan, Aberystwyth.

Yn olaf, roeddwn yn falch i weld cymaint o bobl yn bresennol yn Eisteddfod Sir yr Urdd ar gyfer disgyblion oed cynradd, a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid eleni. Mae'n amlwg fod cystadleuwyr o bob oedran yn edrych ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sydd i'w chynnal yn Llanerchaeron, a hoffwn longyfarch pawb ar eu gwaith caled!

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Mawrth yng Nghapel Bethel Drefach. Wedi trafod materion parthed tripiau'r Gymdeithas. diolchodd Dilwen George y Cadeirydd am siec o £100 oddiwrth Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd cyn mynd ymlaen i groesawi Plant Ysgol Llanwenog roi adloniant. Braf oedd gweld Capel Bethel yn llawn wrth i'r plant, yr Athrawesau , a nifer o rieni ymuno gyda'r aelodau.

Cafwyd awr hwylus o adloniant ganddynt, - o ganu, llefaru ac eitem offerynnol; y plant eu hunain yn cyflwyno'r eitemau, - y cyfan yn cael ei wneud yn ddeheuig a chyda graen.

Diolchwyd yn gynnes iddynt, - y plant a'r athrawesau, gan Mrs Irene Jones, yr Is-gadeirydd, gan fynegi diolch yr aelodau i gyd am eu gwaith caled a'u hamser. Ac i'r rhieni hefyd am gludo'r plant ac am gael eu cwmni hwythau. Dymunodd yn dda i'r plant yn Eisteddfod yr Urdd, - nifer o eitemau gwaith llaw wedi mynd i'r Genedlaethol.

Braf oedd gweld Mrs Margaret Evans wedi dod nôl i gyfeilio i'r plant, ac i ddangos eu gwerthfawrogiad, cyflwynodd y ddau ddisgybl hynaf dusw prydferth o flodau iddi ar ran yr ysgol.

Bu'r plant yn mwynhau sudd oren, bisgedi a phice bach yn y festri cyn ymadael, a chwarae teg iddynt, diolchwyd am eu lluniaeth gan Tomos Evans.

Wedi i'r gwragedd cael cyfle i olchi'r llestri ac ail-osod y byrddau, mwynhawyd 'paned ayyb gan yr aelodau. Dan Jones fu'n diolch am y wledd.

Bydd y tripiau yn cychwyn ar y 14eg o Ebrill. Y cyntaf yn mynd i Aberteifi ac ymlaen i Hwlffordd. Bydd y bws yn gadael Llambed am 9 o'r gloch. Enwau i Yvonne 480590.

Brynteg.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Gweddi Chwiorydd y Byd ym Mrynteg eleni ar y Gwener cyntaf ym mis Mawrth. Cynrychiolwyd ardal Llanllwni a Llanwenog gan wragedd o'r ddwy Eglwys, Capel Nonni, Brynteg, Bethel Drefach, Capel-y-Bryn a Seion Cwrtnewydd, - pawb yn cymryd rhan yn eu tro.

Chwiorydd o wlad Camerŵn oedd wedi paratoi'r thema am eleni a chafwyd ychydig o hanes y wlad ynghyd â'r sefyllfa gymdeithasol yno gan Eifion Davies.

Diolch i Janet Howells, Gwarallt, Llanllwni am gyd-lynu'r gwasanaeth lleol yn flynyddol.

Diolch.

Dymuna Rosemary a Pat McKee, Arlyn, Drefach, ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd y neges ganlynol yn gofyn am wybodaeth.

"Daeth teulu mam-gu o Lanwenog, sef disgynnydd o filwr Gwyddelig a ddaeth draw i ymladd yn 'Rhyfel Cartref (1641 - 1651) ac wedi ymgartrefu yn Llanwenog. Oes 'na rywun o'r un dras yn byw yn yr ardal yn awr? Maent yn cael eu galw yn 'Paddys Llanwenog' hyd heddiw."

Os hoffech gysylltu â'r person yma mae croeso i chi. Dyma'i e-bost – malstephx@gmail.com

Mae cyfeiriad at y rhain yn 'Hanes Plwyf Llanwenog' gan Cledlyn. Os oes gennych wybodaeth pellach buasai'r person yma, a ninnau yn 'Clonc' yn falch o gael clywed.

Dathlu Penblwyddi

Yn ystod y mis dathlodd Mrs Gwenda Davies, Bwlchmawr, Carys Davies, Fronheulog a Tony Hatcher, Abernant penblwyddi arbennig. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu!

C.Ff.I. Llanwenog

Yn ystod Penwythnos Cymraeg C.Ff.I Cymru bu aelodau'r clwb yno yn cystadlu yn y Siarad Cyhoeddus. Yn yr adran dan 16 llwyddodd Lauren Jones ddod yn 4ydd fel cadeirydd, a daeth y tîm yn 4ydd hefyd. Enillodd Enfys Hatcher y wobr gyntaf am y cadeirydd gorau dan 21a chafwyd y tîm 1af. Roedd Cerys Jones yn aelod o'r tîm dan 26 ac fe enillwyd y tîm y wobr 1af.

Ar ddechrau Mis Mawrth cynhaliwyd ein cyngerdd dramâu yn Ysgol Gynradd Llanybydder. Diolch i bawb a wnaeth ein cefnogi ar y noson, hefyd i glwb Llanddeiniol a wnaeth ein diddanu ni gyda'i drama nhw. Cawsom noson lwyddiannus i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Yn ystod y mis cynhaliwyd y ddawns dewis swyddogion blynyddol y sir yn Westy Tyglyn Aeron. Llongyfarchiadau i Gwennan Davies a chafodd ei dewis i fod yn forwyn yn y Rali ym mis Mai.

Roedd penwythnos Saesneg C.Ff.I Cymru yn ystod y mis hefyd. Roedd Lyn Jenkins yn aelod o'r tîm dan 26. Hefyd roedd Enfys Hatcher ac Elin Jones yn aelodau o'r tîm dan 21.

Bu'r clwb i fyny ym Mart Tregaron ar ddiwedd y Mis yn cystadlu yn Niwrnod Maes y Sir. Fe gewch chi'r canlyniadau yn y rhifyn nesaf.

Ysgol Llanwenog

Yn ystod y tymor mae disgyblion blwyddyn 6 yr ysgol wedi bod yn ffodus i dderbyn gwersi dawnsio gwerin a chlocsio fel rhan o'r cynllun pontio cynradd/uwchradd cylch Llambed. Diolch yn fawr iawn i Gethin Page am ei wersi egnïol.

Braf yw nodi bod nifer o blant yr Adran Iau yn mynychu'r Clwb Drama yn Neuadd Goffa Talgarreg ac edrychwn ymlaen at weld eu perfformiadau terfynol nos Fawrth y 23ain o Fawrth. Mae'r disgyblion yn bendant wedi elwa'n fawr o dderbyn yr hyfforddiant arbenigol hwn gan aelodau staff Theatr Felin-fach yn rhad ac am ddim.

Hoffwn groesawi ddisgybl newydd atom i'r Ysgol, sef Emily Danson. Hyderwn ei bod wedi ymgartrefu gyda ni erbyn hyn.

Bu tipyn o gyffro eleni eto yn arwain at ddiwrnod Eisteddfod Ysgol Llanwenog a gynhaliwyd ar ddydd Mercher y 3ydd o Fawrth yng Ngwesty'r Llew Du yn Llanybydder. Diolch yn fawr i'r perchnogion, sef David a Jean, am ganiatáu i ni ddefnyddio'r cyfleusterau drwy'r dydd a'r nos a wnaeth darparu llwyfan gwych ar gyfer y cystadlu brwd. Gwnaeth bob plentyn gymryd rhan yn y cystadlu mewn amrywiol ffyrdd megis gwaith llaw, ffotograffiaeth, ysgrifennu stori, canu, dawnsio ac actio. Wedi diwrnod hwylus iawn o gystadlu, Cledlyn a ddaeth i'r brig. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i lywydd y dydd, sef y Parchedig Bill Fillery, am ei gefnogaeth barod unwaith eto ac am ei rodd hael tuag at yr ysgol. Braf iawn oedd cael croesawi ein cyn athrawes Mrs Margaret Evans yn ôl i'n plith i gyfeilio am y dydd. Diolchwn hefyd i'r beirniaid am roi o'u hamser sef Mrs Elonwy Davies a Mrs Linda Thomas. Elwodd y plant yn fawr o'u harbenigedd a'u profiad. Hoffem hefyd ddiolch i'r tair yma am eu cefnogaeth wrth hyfforddi'r plant gogyfer â chystadlu yn Eisteddfod Gylch Llambed eleni.

Gwnaeth y plant gymryd rhan yng nghystadlaethau'r ymgom, parti llefaru a'r côr. Wrth ymgymryd â'r cystadlaethau yma bu 36 o ddisgyblion yr Ysgol ar lwyfan yr Eisteddfod Gylch eleni. Edrychwn ymlaen at fynd i Lannerch Aeron i gefnogi disgyblion y sir wrth iddynt gystadlu yn y Genedlaethol.

Fel rhan o'r Cynllun Tair Ysgol, bu holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 y cylch ar ymweliad i Gastell Henllys yn ystod y tymor. Roeddent wrth eu boddau yn cael blas ar fywyd yn Oes y Celtiaid drwy beintio eu hwynebau, pobi bara a gwehyddu.

Daeth PC Gwyndaf Lloyd i gynnal gweithdai gyda phlant blwyddyn 2, 3, 5 a 6 er mwyn hyrwyddo eu parch at yr amgylchedd ac at eraill. Edrychwn ymlaen at ei groesawi unwaith eto yn ystod tymor yr haf.

Diolch yn fawr i Gymdeithas Henoed y Plwyf am ei gwahodd i'w diddanu yng Nghapel Bethel ar brynhawn ddydd Mercher y 10fed o Fawrth. Roedd yn gyfle gwych i'r plant ddangos eitemau'r Eisteddfod Ysgol, Eisteddfod Gylch ac i Gerddorfa'r Ysgol berfformio. Wedi'r gwasanaeth graenus i ddathlu dydd ein nawddsant, cafodd y plant wledd gan wragedd caredig y Plwyf.

Dathlodd Dosbarth y Babanod Ddiwrnod y Llyfr drwy fynd ar ymweliad â Phentre' Bach. Ymunodd Cylch Meithrin Gwenog â ni mewn diwrnod hwylus gyda chymeriadau lliwgar y Pentref, fel Bili Bom Bom, Coblyn, Siani Flewog a Myrddin y Llyfr. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn eu gwisg ffansi. Beth am ymweld â'r wefan www.ydydd.co.uk <http://www.ydydd.co.uk> er mwyn cael ein gweld yn mwynhau yno?

Cafwyd Stondin Gacennau llwyddiannus unwaith eto ar fore Mercher y 17eg o Fawrth. Diolch i bawb am eu cefnogaeth gyson. Ar ddydd Sadwrn y 15fed o Fai bydd Cylch Gwenog yn cynnal bore o weithgareddau yn festri St Peter's, Llambed. Bydd bwyd a chacennau, peintio wynebau ac ymwelydd arbennig yno. Croeso cynnes i bawb alw heibio am baned a chlonc. Mwy o fanylion i ddilyn y tro nesaf.

Dymunwn yn dda i Mrs Lorraine Davies sydd wedi derbyn swydd secondiad blwyddyn. Bydd yn cynorthwyo athrawon ysgolion Ceredigion wrth ddysgu plant. Bydd ein colled yn fawr iawn ar ei hôl, ond edrychwn ymlaen at ei chroesawi yn ôl y flwyddyn nesaf.

Clwb Cant Chwefror 2010:
1af: Carys Jones - £15 (Rhif 10)
2il: Sally Willis - £10 (Rhif 35)
3ydd: Mr & Mrs A. R Lloyd, 2 Brynsteffan - £5 (Rhif 2)

Carys Jones, sef enillydd y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Llanwenog.

Cwmann

Diolch

Dymuna Charles Brynmaen diolch i bawb am y llu o gardiau ac anrhegion derbyniodd ar ei ben-blwydd arbennig. Hefyd hoffai ddiolch am y cardiau, galwadau ffôn a sawl fuodd yn ymweld ag ef yn yr ysbyty. Dymuna'r teulu sef Charles, Maureen, Clive, Helen, Donald, Heini a Bryn ddiolch o galon am y nifer o gardiau, blodau a galwadau derbyniwyd pan gollwyd Mam, Mamgu a hen-famgu annwyl. Diolch yn fawr iawn.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a Charles a'r teulu Brynmaen ar farwolaeth ei fam, Mrs. Nellie Evans, 24 Heol Hathren a hefyd a theuluoedd Mrs. Florence Davies, Esgair Newydd a fu farw yn ddiweddar.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago Mawrth 2010

1. Mrs May Evans, Felinfach Farm, Cwmann, 36, 2. Mr. Bernard Hardy, Tryweryn, Cwmann, 69, 3. Mrs. Wendy Mason, 35 Heol Hathren, Cwmann, 103, 4. Mr Les & Marjorie, Golwg y Dyffryn, Cwmann, 67, 5. Mr David Lloyd-Jones, Cedars, North Rd., Lampeter, 75, 6. Mr Huw Davies, Verlands, Cwmann, 95, 7. Dafydd Lloyd, Brynywawr, Pumpsaint, 96, 8. Mrs Avril Williams, Y Fedw, Cwmann, 11, 9. Mrs Heledd Jones, Penrhos, Cwmann, 104, 10. Mr Edwin Harries, 8 Nanty-y-Glyn, Cwmann, 23.

Clwb 225 Mawrth

1. 156, Alan a Sulwen Morgan, Llwyn Fedw, Falcondale Drive, Lampeter, 2. 128, Neville a Eleanor Davies, Pleasant View, Llanfair Rd., Lampeter, 3. 230, Mr Williams (Young), Gwynfa, Temple Bar, 4. 39, Mr Teifion Williams, Bronallt, Llangadog, 5. 206, Tracy Edwards, Glyn View, Cwmann, 6. 53, Tegwen Morris, North Rd, Aberystwyth, 7. 99, John Davies, Y Ddol, Cellan, 8. 95, Alun Williams, Crown Stores, Lampeter, 9. 124, Aneurin Jones, Hathren, Bridge St., Lampeter, 10. 185, Mrs Gwynfil Griffiths, Bryn Hathren, Cwmann.

Sefydliad y Merched

Ar nos Lun y cyntaf o Fawrth aeth yr aelodau i'r Vale yn Ystrad Aeron i Ddathlu Gŵyl ein Nawdd Sant Dewi. Ar ôl mwynhau pryd blasus o fwyd aeth Elma Phillips ymlaen i gyflwyno ein gwraig wadd sef Mrs Ann Evans, Prif Athrawes Ysgol y Dderi, Llangybi ers un mlynedd ar bymtheg. Cafwyd noson arbennig yn ei chwmni. Dywedodd mai arwyddair yr ysgol ydyw Dysgu, Rhannu a Gofalu ac 'roedd hynny yn dod i'r amlwg yn glir iawn fel yr oedd yn sôn am y tri phennawd o fewn yr ysgol a hefyd yn y gymuned yn ogystal â chydweithio gydag ysgolion ar draws y byd.

Er mawr siom i blantos y Dderi mae Mrs Ann Davies yn ymddeol ddiwedd yr haf.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan Morfudd Slaymaker ac wrth derfynu dymunodd adferiad hir a hapus i Ann.

Diolch

Dymuna Jennie, Glyndu, Cwmann a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Hefyd diolch yn arbennig i'r cymdogion, ffrindiau a'r teulu a Gwilym C. Price, ei Fab a'i Ferched, Llambed.

Carreg Hirfaen

Rydym wedi cael mis prysur iawn yn yr ysgol:

Bu Eli Eco a'r brodyr Gregory yn yr ysgol yn ystod y mis yn cynnal gweithdy Byw'n iach. Daeth deintydd y sir allan i siarad â phlant CA2 am iechyd dannedd.Bu plant blwyddyn 6 yn ymweld â'r ysgol Gyfun yn rheolaidd yn ystod y tymor fel rhan o'r trefniadau trosglwyddo CA2/CA3. Yn ystod y sesiynau yma hyfforddwyd y plant gan yr ysgol Uwchradd mewn gweithdai dawnsio gwerin.

Cynhaliwyd cyngerdd Gŵyl Ddewi gan yr ysgol yn neuadd Sant Iago ar Fawrth y 1af. Cawsom noson hwylus iawn gyda llu o berfformiadau gwahanol ar y llwyfan yn cynnwys, dawns werin, dawnsio disgo, grwpiau canu, llefaru a phlant yn chwarae amrywiol offerynnau.

Mae plant blwyddyn 5 a 6 yn gwneud gwaith maes mewn Daearyddiaeth trwy ddilyn taith yr afon Teifi o fynyddoedd Ffair Rhos i Aberteifi ac wedi bod yn dilyn yr afon..

Erbyn i chi ddarllen hyn bydd disgyblion blynyddoedd 3 a 4 wedi bod ar ymweliad preswyl i wersyll yr Urdd Llangrannog. Cewch glywed yr hanes rhifyn nesaf!!

Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Llanbed yn ystod y mis a braf oedd gweld bron pob plentyn yng nghyfnod allweddol 2 yn cymered rhan a chynrychioli'r ysgol.

Pob lwc i'r canlynol a fydd yn cynrychioli cylch Llanbed yn y Sir ar ddiwedd mis Ebrill:

Amy Richards 5ed, Lisa élan 10fed, Beci Harrison 1af, Naiomi Davies 2ail, Rupert Geddes 7fed, Ewan Bowden 8fed, Mared Oewn 1af, Sara jones 2ail, Sophia Barker 7fed, Daniel Thomas 1af, Alwyn Morgans 3ydd, Owain Edwards 5ed, Iwan Williams 6ed, Rhydian Edwards 8fed, Joseff Thomas 11eg a Julianna Barker 4ydd.

Bu tîm pêl rwyd yr ysgol yn llwyddiannus iawn yn ddiweddar ar lefel siriol. Daeth y tîm yn drydydd allan o holl ysgolion Ceredigion. Ymdrech arbennig. Bu tîm rygbi yr ysgol yn arbennig o lwyddiannus yng nghystadleuaeth y Sir yn ddiweddar gan gyrraedd y gem gynderfynol a'r pedwar uchaf. Yn y gemau grŵp, enillwyd yr holl gemau gan blant Carreg Hirfaen a cholli o drwch blewyn wnaeth y tîm yn y gêm gynderfynol.

Cynhaliwyd sêl gacennau yn yr ysgol i godi arian at apêl Haiti. Casglwyd swm sylweddol i'r achos arbennig yma. Diolch i holl rieni'r ysgol am gyfrannu sut gymaint o gacennau blasus iawn.

Byddwn yn cynnal noson addysgiadol mathemateg yn yr ysgol, Nos Fawrth Mai 18fed am 7.00yh. Croeso cynnes i holl rieni'r ysgol.

Ar ddydd Mercher, Mawrth 10fed aeth Cyfnod allweddol 2 i'r ganolfan Dechnoleg ger Machynlleth i ddysgu mwy am ail-gylchu a cheisio lleihau ein 'ol traed carbon' . Roedd hyn yn clymu mewn gyda'n thema yng ngwersi gwyddoniaeth y tymor.

Diwrnod prysur o gystadlu eto a gafwyd yn Eisteddfod Rhanbarth Yr Urdd, a llwyddiant eto!

Y Canlyniadau fel a ganlyn:

Canu Bl 5 a 6 - Mared Owen 2ail

Alaw Werin – Mared Owen 2ail

Unawd llinynnol – Julianna Barker- 3ydd

Cafwyd perfformiadau graenus ar y llwyfan gan y côr a'r grŵp llefaru ac yn fuddugol ac yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 yn Llanerchaeron, bydd parti unsain yr ysgol yn canu am Fynd i'r Ffair.

Llongyfarchiadau mawr a diolch i'r holl blant am eu gwaith caled.

Hefyd mae plant yr ysgol wedi bod yn brysur gyda'i gwaith celf erbyn Eisteddfod yr Urdd.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Eurion Jones Williams, Cysgod y Pin, Cwmann ar ennill Wobr Teilyngdod yn dilyn ei berfformiad yn arholiadau Ysgoloriaeth

Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Cynigiwyd iddo le di amod ynghyd a gwobr ariannol sylweddol iawn. Da iawn ti, Eurion.

Llongyfarchiadau hefyd iddo ar ei lwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Sir yr Urdd gan ennill y wobr gyntaf ar yr Unawd Llinynnol o 15 - 19 oed ac fel aelod o Fand Pres Penweddig, yr Ensemble Pres Hŷn, y Côr Gwerin, y Côr Bechgyn a'r Côr Cymysg (SATB). 'Roedd Eurion hefyd yn aelod o Ensemble Lleisiol buddugol yn Eisteddfod yr Aelwydydd ynghyd a'r Côr Bechgyn a'r ddau Gôr Cymysg.

Hefyd, ar Ebrill y 13eg fe fydd Eurion yn dathlu ei benblwydd yn 18oed - pob bendith a dymuniad da i ti wrth y teulu i gyd.

Bethel Parc-y-rhos

Cynhaliwyd Noson Gŵyl Ddewi lwyddiannus y Gymdeithas yng Nghanolfan Cwmann ar y 5ed o Fawrth gyda'r gŵr gwadd Dr Hefin Jones o Gaerdydd. Cyflwynodd y llywydd Ann Lewis ef fel gwyddonydd a diddordeb ym maes Cynhesu Byd Eang yn wreiddiol o Bencader. Siaradodd yn ddiddorol am hanes Dewi Sant ac am y ddaeargryn yn Haiti. Talwyd y diolchiadau gan Anne Thorne, ac i ddiweddu'r noson cafodd pawb luniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y pwyllgor. Codwyd £500 tuag at Apêl Trychineb Haiti. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Anita Williams, Gŵel-y-coed yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Delia Williams, Fronafon ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathliad!

Wyres fach

Llongyfarchiadau i John a June James, Maesteg, Cae Ram ar ddod yn ddatcu a mam-gu i Elain Gwawr. Merch fach i Gareth a Bridget yn Aberystwyth.

Gohebiaeth

Y Lolfa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE

Annwyl Olygydd,

Mae'r gwaith wedi dechrau ar roi trefn ar gyfeiriadur Dyddiaduron 2011 Y Lolfa. Eleni, yn dilyn galw, bydd yna dri chategori newydd yn ymddangos yn y Cyfeiriadur, sef Crefyddol, Lluniaeth a Llety (bwytai a gwestai Cymreig eu naws) a Grwpiau Cymraeg.

Os ydych am i'r Lolfa gynnwys gwybodaeth am sefydliad newydd yn ein Cyfeiriadur, neu os ydych am ddiweddaru neu ddileu gwybodaeth mae croeso i chi gysylltu â mi neu fynd i'r adran Cyfeiriadur ar wefan Y Lolfa: www.ylolfa.com.

Bydd cyfle fel arfer i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5, A4 a phoced Y Lolfa. Os am dderbyn taflen delerau mae croeso i chi e-bostio sonia@ylolfa.com neu fy ffonio ar 01970 832304.

Yn gywir,

Sonia Hughes
sonia@ylolfa.com

Llangybi

Ysgol Y Dderi

Llongyfarchiadau dwbl i Mrs Hayley ar enedigaeth efeilliaid yn ddiweddar. 'Rydym i gyd yn edrych ymlaen yn fawr at gael cwrdd ag Ifan a Cadi cyn bo hir. Croeso i Mrs Meinir sydd yn cymryd lle Mrs Hayley dros ei chyfnod mamolaeth, ac 'rydym yn falch hefyd i groesawu Miss Lilian yn ôl i'r ysgol ar ôl ei chyfnod mamolaeth hithau.

Bu nifer o ddisgyblion yn brysur iawn yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Gylch yr Urdd. Llongyfarchiadau i'r canlynol: Rhiannon Newitt- 1af yn yr Unawd Chwythbrennau a'r Unawd Piano, Ceri Pickett – 2il yn yr Unawd Chwythbrennau, parti unsain – 2il, grŵp dawnsio disgo – 2il, grŵp dawnsio gwerin bl.3 a 4 – 2il, grŵp dawnsio gwerin bl.5 a 6 – 2il, Sally Rees – 3ydd yn y dawnsio disgo unigol. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r holl ymarfer.

I orffen tymor yr Urdd yn yr ysgol cawsom ddisgo ar Nos Lun yr 22ain o Fawrth, gyda chŵn poeth blasus a digon o hwyl a sbri.

Ar ôl y clyweliadau diweddar, cafodd Rhiannon Newitt, Arianna Gaetani Morris, Zoe Jones, Elinor Griffiths, Daniel Evans a Liam Newitt eu dewis i gymryd rhan yn y sioe gynradd a'r ffilm ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llannerchaeron ddiwedd mis Mai. Da iawn nhw. Gobeithio y gwnânt fwynhau'r profiad.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni, cawsom ddiwrnod hyfryd, a braf oedd gweld cynifer o'r plant yn eu gwisgoedd traddodiadol. Dechreuwyd y diwrnod gyda gwasanaeth pwrpasol, yna mwynhaodd pawb gawl blasus Miss Susan i ginio a chawsom ddwy gystadleuaeth hefyd yn ystod y dydd – y wisg orau ym mhob blwyddyn a'r genhinen hiraf. Ac yna, yn hwyrach ar yr un diwrnod, bu aelodau'r Urdd yn mwynhau hwyl a sbri 'Steddfod Ddwl. Mr Odwyn Davies gafodd y gwaith pwysig o feirniadu cystadlaethau fel – garglo cân, adrodd fel plentyn bach, dawns wirion a dweud jôc Gymraeg. Dyna beth oedd diwrnod hwyliog!

Llongyfarchiadau

Hoffwn longyfarch Lowri Pugh-Davies ar ennill y 3ydd wobr yn Llefaru Unigol yn Eisteddfod gylch yr Urdd a hefyd ei llwyddiant o gael eu dewis i fod yn rhan o Sioe Plant y Fflam. Hefyd i Rhodri ei brawd ar ennill yr 2il wobr yn Adrodd Digri yn Eisteddfod Swyddffynnon. Daliwch ati.

Cymdeithas Maesyffynnon

Dathlwyd Gŵyl ein Nawddsant trwy gael Cawl traddodiadol ac anerchiad gan y gŵr gwadd sef Mr Eifion Davies, brodor o'r ardal yma. Croesawyd pawb i'r noson gan y llywydd sef Mrs Sally Davies ac fe draddodwyd y fendith gan y Parch Elwyn Jenkins ac ef hefyd a rhoddodd pleidlais o ddiolch i'r gŵr gwadd am noson hyfryd yn llawn hanesion difyr a thrwstan am gyn-drigolion heol y Comon, ac hefyd i'r gwragedd am eu cyfraniad hwythau i lwyddiant y noson.

Hamdden

Treuliwyd prynhawn difyr yn dathlu Gŵyl Dewi ein Nawddsant yng Ngholeg Llambed ar Fawrth 12fed, trwy gyd-fwyta cawl blasus a phwdin. Y gwesteion oedd Mr & Mrs Griffiths o Ledrod. Roedd ganddynt raglen ddiddorol ac eang ac roedd pawb wedi mwynhau clywed eto ffefrynnau'r genedl. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog iddynt am brynhawn hyfryd gan Gwenda Thomas. Enillwyr y Raffl oedd Joyce Harries, Gwenda Thomas, Barry Williams, Joan James, Liz Holgate, Ceinwen Jones a Llinos Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 9fed - Trip Dirgel yn cychwyn o Gwmann am 12.15 ac yn teithio tuag at Langybi. Enwau mor fuan â phosib i Llinos Jones.

Merched y Wawr Y Dderi

Ar nos Fercher, Mawrth 17eg bu'r gangen yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant yn y Pantri. Yno cawsom wledd fendigedig o gawl blasus a nifer o ddanteithion hyfryd eraill i'w blasu. Y wraig wadd oedd y Parch Suzie Bayle ac fe gawsom ddatganiadau soniarus iawn ar y Delyn ganddi. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch iddi gan Mair Spate gan ddiolch yn arbennig am y nifer o eitemau hyfryd roedd wedi ei chwarae ac am noson ddifyr. Diolchwyd hefyd i Delyth am yr ymborth bendigedig, y gwasanaeth a'r croeso a gawsom ganddi. Rhoddwyd y Raffl gan Denise Hicks, Margaret Jones a Delyth Jones ac fe'i enillwyd gan Eleanor Evans, Iris Quan a Mary Jones. Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi ar Ebrill 15fed pryd y disgwylir Mr Geraint Evans o Dalybont i'n hannerch. Penderfynodd anfon tusw o flodau i'r llywydd a dymuno iddi adferiad buan a llwyr ac i bawb arall oedd yn anhwylus.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad y fro â Mrs Aelwen Morgans, Roseina yn ei phrofedigaeth ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith yn ddiweddar. Cydymdeimlir hefyd a holl gysylltiadau teuluol eraill.

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Llambed. Daeth Jasmine Davies yn drydydd yn yr Unawd i Ferched bl.5 a 6. Daeth y grŵp Llefaru a'r Parti Canu yn drydydd. Aeth y Gân Actol, a ddaeth yn gyntaf ymlaen i'r Eisteddfod Sir a gynhaliwyd ym Mhontrhydfendigaid, dydd Sadwrn 13eg Mawrth. Daethon yn ail allan o bedwar perfformiad gan gael beirniadaeth ganmoladwy. Bydd y profiad yn un bythgofiadwy i bawb. Diolch i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd.

Gwisgodd y plant eu dillad Cymreig ar Ddydd Gwyl Dewi. Daeth Mr Tim Jones, y ffotograffydd i'r ysgol i dynnu lluniau. Yn yr hwyr cawsom noson o Gawl a Chân yn Neuadd yr Eglwys. Diolch i bawb a gyfrannodd at y lluniaeth a helpu ar y noson. Cafwyd adloniant gan blant yr ysgol a Jonathan Brayley. Diolch i ti Jonathan am dy eitemau cerddorol ar y piano a da iawn chi blant. Roedd y noson yn hwylus a llwyddiannus iawn.

Bu Carys Thomas, cyd-ddisgybl yr ysgol, atom am wythnos ar brofiad gwaith o Ysgol Gyfun Llambed. Gobeithio dy fod wedi mwynhau yn ein cwmni.

Daeth Carys, Sam ac Aled o Ysgol Gyfun Llambed atom i roi sesiwn o sgiliau hoci i blant blynyddoedd 3 a 4 a sesiwn rygbi i blant blwyddyn 5 a 6. Mwynhaodd y plant yn fawr.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yn Ysgol am fis Mawrth:
£10 – 99 – Ifor Jones, Glyntelor, Gwyddgrug
£5 – 41 – Marna Jones, Maesygrug, Gwyddgrug.
£2.50 – 132 – Ffion Harries, Maes Nonni
£2.50 – 111 – Deliah Harries, Cilferi Uchaf, Pum Heol
£2.50 – 3 – Mandy Jones, Hafan Deg

Diolch

Dymuna Keith a Meinir Brynceirch, ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau a' r rhoddion a dderbyniwyd ar archlysur genedigaeth eu merch Efa Siôn, chwaer Alwyn, Gwion ac Elan. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd yn fawr.

C.FF.I Llanllwni

Yn dilyn cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Sir roedd dwy aelod o Glwb Llanllwni ddigon ffodus i fynd ymlaen i Dywyn i gynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru yn y gystadleuaeth Darllen dan 14 oed. Yn y tîm roedd Betsan Evans, Betsan Jones o Llanllwni a Sara Non Thomas o Llanfynnydd. Braf oedd clywed ar ddiwedd y dydd bod y tîm wedi dod yn drydydd ac hefyd rhoedd Sir Gâr yn ffodus iawn i ennill y marciau uchaf ar ddiwedd y dydd dros y pedwar oedran. Llongyfarchiadau iddyn nhw! Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mrs Linda Davies am ei hyfforddi.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r clwb wedi bod yn Sgio yn Llangrannog, noson chwaraeon yn Talardd, gwneud pancws. Rydym nawr yn brysyr iawn yn paratoi tuag at Diwrnod Gwaith Maes y Sir sydd yn cyael ei gynnal yn Mart Llanymddyrfi Dydd Sadwrn 27 Mawrth.

FISHERS ARMS
Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Cwrtnewydd

90 oed

Yn ystod mis Ebrill fe fydd David Richards, Elmo yn dathlu ei ben-blwydd yn 90oed. Mae'n dal i edrych yn ifanc iawn a gobeithiwn y caiff fwynhau blynyddoedd lawer eto.

60 oed

Gobeithio i Alan Jones, Penlanfach fwynhau dathliad ei ben-blwydd yn 60oed yn ystod diwedd mis Mawrth.

Cartref Newydd

Ffarweliwyd gyda Ethel Jones, Tŷ Croes yn ddiweddar gan iddi symud i fyw i Bryndulais, Llanllwni. Gobeithio y cewch fwynhau iechyd gweddol eto am flynyddoedd lawer.

Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd

Braf oedd gweld pawb wedi dod yn eu gwisg Gymreig i ddathlu Gŵyl Ddewi a'r ddechrau'r mis.

Ar gyfer Sul y Mamau bu pob plentyn yn addurno cacennau bach ac yna eu gosod mewn basged i roi i fam. Bu tipyn fwy o fwyta nag o addurno ac roedd pob mam yn lwcus iawn bod un gacen iddynt.

Yn ystod y mis bu'r plant yn paratoi salad ffrwythau ffres gyda'i hoff ffrwythau ac yna eu bwyta i de. Hyfryd iawn.

Roedd y plant ar ben eu digon wrth iddynt fynd o gwmpas yr ysgol yn chwilio am wyau Pasg. Erbyn diwedd roedd boliau pawb yn llawn wedi bwyta gormod!

Hoffai'r Cylch roi diolch arbennig i Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd am eu rhodd hael eleni eto.

Os am brynhawn o gymdeithasu mae croeso mawr i chi ddod i ymuno a ni bob prynhawn dydd Mawrth (tymor yn unig) yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd.Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01570 434 273.

Ysgol Cwrtnewydd

Rydym wedi cael cyfnod prysur iawn yn ysgol Cwrtnewydd yn gwneud nifer fawr o wahanol weithgareddau. Llongyfarchiadau mawr i Elin Davies, Gethin Morgan, Rhys Davies ac Iwan Evans am gael eu dewis i berfformio yn Sioe Ysgolion Cynradd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron. Byddwn yn gweld Iwan yn perfformio fel Tomos Llewelyn un o'r prif gymeriadau.

Cafwyd cryn dipyn o lwyddiant hefyd yn Eisteddfod Cylch yr Urdd.

Da iawn i bawb a fu yn cystadlu a diolch yn fawr iawn i bawb am eu holl help a'u cefnogaeth gyda'r Eisteddfod.

Rydym wedi bod yn ffodus y tymor yma i gael sesiynau drama gyda Mari o Arad Goch, mae'r plant yn mwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Dathlwyd Dydd Gŵyl Ddewi yn ein ffordd draddodiadol a phawb wedi gwisgo eu gwisg Gymreig. Cynhaliwyd brynhawn o Bigion a Phaned lle bu'r plant yn perfformio darnau'r Eisteddfod a hefyd yn adrodd hanes Dewi Sant.

Aeth plant y dosbarth babanod am drip i ddathlu Diwrnod y Llyfr ym Mhentre' Bach. Cafwyd bore bendigedig yng nghwmni Goblin, Dwmpen Maldwaden a Bili Bom Bom.

Daeth Michael Morgan i mewn i'r ysgol i roi sesiwn ar Gymorth Cyntaf i blant y dosbarth hyn. Roedd y plant wedi mwynhau ac wedi dysgu cryn dipyn.

Rydym ni fel ysgol gyfan gyda help oddi wrth rhai rhieni wedi bod yn adeiladu strwythur Helygain dan arweiniad Andrew o Living Willows Wales. Roedd y plant wrth eu boddau yn plannu, plethi a chlymu. Mae'r prosiect wedi bod yn agoriad llygad i'r plant ac erbyn hyn mae'r plant yn mwynhau ei ddefnyddio.

Cafodd y plant llwyddiant hefyd yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Cafodd y Grŵp Dawnsio Creadigol gyntaf, Ymgom ail ac Elin yn y Cerdd Dant ail.

Bu'r plant yn cystadlu yn nhraws gwlad cylch Llanbed ar gaeau'r ysgol Uwchradd. Fe wnaeth y plant yn arbennig o dda a fydd rhai ohonynt yn mynd trwyddo i'r rownd nesaf. Da iawn i bob un am ymdrechu.

Mae'r plant wedi bod wrthi yn peintio, gludo a lliwio tuag at gystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd. Roedd yn gystadleuaeth arbennig o dda a'r safon yn uchel iawn. Cafwyd rhai gwobrau a dyma'r canlyniadau.

Llun cyfrifiadur Bl. 3 a 4 - Owen Schröder 1af. Llun 2D Bl. 3 a 4 – Madeleine Smith 3ydd. Llun 2D Bl. 5 a 6 – Michael Haydon 3ydd. Gwaith Grŵp 3D – Rhys Davies, Kiera Cashel, Iwan Evans a Briallt Williams 3ydd.

Byddwn yn cynnal ein gweithgareddau blynyddol ar y 3ydd o Fai i ddechrau am 12.30y.p. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyraf a dwysaf gyda Hefin a Mary Jenkins, Cathal a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli nai a chefnder annwyl o ardal Aberteifi a gafodd ddamwain erchyll ger Wrecsam yn ystod diwedd mis Mawrth.

Ffarmers

Newid Aelwyd

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Alvin a Charlotte Morgan ar symud i'w cartref newydd – Bryncelyn, Ffarmers, a chroeso cynnes yn ôl i Ffarmers i Tom a Bet Steele i fyw yn Nhrefechan. 'Roedd Tom a Bet yn adnabyddus yn y pentref yn y 70'au a'r 80'au fel perchnogion Y Drovers' Arms. Ers ymddeol o'r 'Drovers' roeddent wedi byw yn Brynmelyn, Cwmann.

Diolch

Dymuna Daniel a Helen Davies, Caerdydd, ddiolch am yr holl anrhegion a chyfarchion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas Noswyl Calan.

Cyfarchion

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhys a Siân yng Ngharno ar enedigaeth mab – Ifan Emrys – ŵyr i Elfyn a Rowena, Troed y bryn.

Gyrfa Chwist i'r Plant

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae rhai o gyfeillion yr ardal wedi trefnu Gyrfa Chwist i'r plant yn y Neuadd, gan roi cyfle iddynt ddysgu sut i chwarae, heb orfod ymdopi a'r pwysau o chwarae gydag oedolion. Cynhaliwyd y noson gyntaf ar y 18fed o Chwefror, a chystal oedd y gefnogaeth a'r brwdfrydedd, trefnwyd noson arall ar y 18fed o Fawrth. Diolch i'r rhai hynny a wnaeth y trefniadau, ac i'r oedolion a ddaeth i roi cymorth.

Marwolaeth

Blin gennym gofnodi marwolaeth Mrs Pearl Doyle, Llysfana, ac estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu colled. Rhoddwyd ei gweddillion i orwedd ym mynwent Eglwys Llanycrwys.

Diolch

Dymuna Gomer a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Joan, gwraig annwyl, mam a mam-gu dyner.

Neuadd Bro Fana

Oherwydd y rhew a'r eira yn ystod y misoedd diwethaf, bu'n rhaid gohirio nifer o'r digwyddiadau a drefnwyd yn y Neuadd. Cynhaliwyd y Cyngerdd a'r Gwasanaeth Garolau blynyddol ar y Sul yn dilyn y Nadolig gyda Kees Huysmas o Dregroes yn unawdydd, ag Elonwy Pugh, Llambed yn cyfeilio. Mae'r elw o £150 yn cael ei gyflwyno i Uned Gofal Dwys y Babanod yn Ysbyty Glangwili. Ar y 25ain o Ionawr, ymwelodd Y Prifardd Tudur Dylan a ni, a chafwyd noson ddifyr yn ei gwmni. Cafodd y noson ei noddi gan 'academi.' Daeth Cwmni Drama Cudyll Coch o Landeilo i'n diddori unwaith eto eleni ar y 12fed o Fawrth. Perfformiwyd dwy ddrama: 'Yn y gwaed' sef addasiad gan Ruth Bevan o ddrama gan Ifan Gruffydd, a 'Rhwng bob cegaid' sydd yn gyfieithiad o ddrama gan Alan Ayckbourn. Llywydd y noson oedd Mrs Ann Jones, Derlwyn - cyn Ysgrifennydd y Neuadd - a chafwyd ganddi araith ddiddorol a phwrpasol. Cafwyd noson hyfryd o gerddoriaeth ar yr 20fed o Fawrth gyda Chôr Meibion De Cymru yn cynnal cyngerdd yn y Neuadd. Mae'r Côr, a sefydlwyd ym 1982, o dan arweiniad Elaine Robins, gyda Juliet Rossiter yn cyfeilio. Cyflwynwyd rhaglen amrywiol ac uchelgeisiol, a chafwyd eitemau gan Meinir a Ffion o Lanfynydd, a Huw Davies (tenor) o Langeitho. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Tegwyn Lloyd, Penbont, Pumsaint. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth barod o holl weithgareddau'r Neuadd, ac edrychwn ymlaen at eich croesawi eto yn y dyfodol. Mae yna un digwyddiad arall wedi ei drefnu cyn yr haf. Bydd Idris Reynolds yn ymweld â ni yn Ffarmers ar Nos Iau, y 29ain o Ebrill i gyflwyno rhan o'r hyn a adroddodd yng Ngwasanaeth Coffa'r Archdderwydd, Y Prifardd, y storïwr, y darlledwr a'r ffermwr Dic Jones - Dic yr Hendre. Bydd y noson yn cychwyn am 8.00 o'r gloch, ac estynnir croeso cynnes i chi ymuno a ni.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Ceredig a Marianne Williams, Tanyresger ar ddathlu eu yn ddiweddar. Priodwyd hwy ar yr 16eg o Fawrth 1985 yng Nghapel Ffaldybrenin.

Llanbedr Pont Steffan

Cerddwyr Llambed

Cafwyd taith i Dyddewi i ddathlu dydd ein nawddsant a saith deg pum mlynedd ers sefydlu ein cymdeithas ym Mhrydain. Tri deg un ohonon ni aeth am bererindod i Dyddewi. Dyma fan cysegredig, a chawsom wefr o fod yno. Nid oes lle tebyg yn unman, ac fe ddewisodd Dewi Sant ei Abaty yn ofalus. Yn agos mae Porth Clais sef prif harbwr i drafnidiaeth i'r Iwerddon, Cernyw, Llydaw a thu hwnt dros y canrifoedd. Cawsom ein syfrdanu gan huodledd ein Heglwys Gadeiriol ac abaty'r esgob. Y mae hanes mewn cerrig ac ysbrydoliaeth yn yr awyr. Ar ôl cael ein digonedd o gawl blasus a phicau bach, yr oeddem yn barod am y daith i'r bai. Ond yn gyntaf cawsom lwnc destun i gychwyniad y gymdeithas 75 blynedd yn ôl. Mae'r gymdeithas yn hyrwyddo agor ein llwybrau cyhoeddus ac yn parhau a'r gwaith da hyd heddiw. Porthladd pleserus yw Porth Clais yn awr ac yn lle delfrydol i esgyn i lwybr yr arfordir. Mae cerdded yr arfordir yn ardderchog pob tymor gyda'r olygfa draw dros fai Santes Ffafrid. Ar y ffordd mae capel Santes Non, mam Dewi ac yn lle delfrydol. Dywedir fod Ffynnon Non yn gwella diffyg ar y golwg. Gwelwyd cerflun o Fair mewn cist gerllaw. Cyn pen dim cyrhaeddwyd Caer Fai a thraeth agored gyda cherrig mawr bob ochr. Yn y pellter roedd Ynys Sgomer a gerllaw roedd Ynys Dewi. Cerddom yn ôl i'r ddinas gan aros am damaid i fwyta ar y penrhyn. Cafwyd taith hwylus yn y bws gyda Robert a gwelwyd golygfeydd hyfryd ar ffordd glan y môr. Disgwyl ymlaen nawr am deithiau'r flwyddyn nesaf.

Cymdeithas Shiloh

'Taith Ddirgel oedd penderfyniad y Llywydd Mair Lewis i ddathlu Gŵyl Ddewi ac wrth ddod a gweithgareddau'r Gymdeithas Ddiwylliadol i ben am y flwyddyn. Ar ôl taith fer, cyrraedd Canolfan y Barcud Coch yn Nhregaron-yn wir roedd prynhawn difyr wedi ei baratoi gan y llywydd. I gychwyn, cafwyd crynodeb diddorol drwy gyfrwng sleidiau o Gors Caron gan Paul Cullyer o'r Cyngor Cefn Gwlad. Gwyddom fod y gors wedi ei ffurfio yn ystod cyfnod yr Ia ac o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Soniwyd yn arbennig am gyfoeth y planhigion ac adar ac mae yna bwyslais mawr i warchod yr amgylchfyd drwy weithio yn agos gyda'r ffermwyr lleol. Drwy greu ffyrdd newydd o gwmpas y gors, mae yna ymdrech i ddenu mwyn o ymwelwyr i fwynhau prydferthwch yr ardal.

Mrs Mary Hughes a'i ffrindiau bu yn ein croesawu i'r Ganolfan Groeso. Bu gwragedd y fro yn paratoi tapestri o'r porthmyn ac y mae hyn i'w drysori'n fawr ymysg nifer fawr o arddangosfeydd eraill s'n cyfleu bywyd y fro arbennig yma. Diolch i'r gwragedd am baratoi ar ein cyfer paned o de a phice ar y maen.

Uchafbwynt y prynhawn oedd ymgasglu yn yr hen ddosbarth er mwyn cael gwers addysg fel yr oedd yn dechrau'r ganrif ddiwethaf yn adeg y "WELSH KNOT". Y meistri oedd y ddau gymeriad hoffus Howard a Meima Morse a'r ddau wedi gwisgo yng ngwisg y cyfnod ofnadwy yma. Cafodd sawl un o'r parti'r rhaff am eu gyddfau yn cynnwys y gweinidog am fentro siarad Cymraeg! Er yr hwyl, gwelwyd pa mor echrydus oedd addysg ein plant yn y dyddiau rhyfedd hynny.

Cafwyd diweddglo campus i'r diwrnod wrth i'r parti o dri deg fwynhau swper ardderchog o gawl a phwdin yn y Stag's Head yn Llangeitho. Diolchodd y Gweinidog i Mair am ei threfniadau trylwyr ac am lywyddu mor raenus yn ystod y flwyddyn ac i weddill y swyddogion sef Owen Jones, Twynog Davies a John Davies am eu gwasanaeth i lwyddiant y gymdeithas. Bydd trip y capel eleni ar y dydd Mawrth Mehefin 22 i Abbey Cwmhir. Cofiwch gadw'r dyddiad yn glir.

Merched y Wawr

Cafwyd noson ddiddorol dros ben yn dathlu Gŵyl Ddewi eleni pan aethom i Goleg Dewi Sant i swpera. Aerwen ein llywydd a gyflwynodd ein gŵr gwadd sef John Meredith. Cafwyd amser hapus iawn yn ei gwmni yn sôn am ei blentyndod ym Mhontrhydfendigaid. Ar ôl dyddiau Coleg aeth i weithio i'r Brifysgol yn Aberystwyth yn gwneud gwaith ymchwil y gell. Yna yn ddeugain oed fe newidiodd cyfeiriad i fod yn newyddiadurwr gyda'r BBC. Cafwyd llawer o straeon diddorol a John yn ymfalchïo trwy rinwedd ei swydd ei fod wedi cael hedfan yn y concord. Noson a erys yn y cof am amser hir.

Diolchwyd iddo gan ein Is Lywydd Mary Davies, hithau hefyd ddiolchodd i Sian a chriw'r Coleg am y pryd blasus ac i Avril a Gwyneth am drefnu'r noson. Yna aeth Aerwen ymlaen i longyfarch Dolly am ei erthygl yn y Wawr. Aeth tair aelod i gwrs crefft y De a gwelwyd gwaith arlunio Dolly ar y noson, ac 'roedd yn fendigedig. Enillwyd y raffl fisol gan Eryl.

Dydd Gweddi'r Chwiorydd

Cynhaliwyd Cwrdd Gweddi Fyd-Eang y Chwiorydd am y tro cyntaf erioed ym Methel Silian ar brynhawn hyfryd o Fawrth. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Gweinidog y Parchedig Jill Tomos a dymunodd wellhad buan i Hazel Davies Trysorydd y pwyllgor. Paratowyd y gwasanaeth gan Wragedd Cristnogol Camarwn ar y thema "Bydded i Bopeth Byw Foliannu'r Arglwydd". Cymerwyd rhan gan aelodau Bethel Silian, Bethel Parc-y-rhos, Brondeifi, Caersalem, Noddfa, Sant Iago, San Pedr, San Tomos a'r eglwys Gatholig. Cyfoethogwyd y gwasanaeth yn fawr gan anerchiad diddorol y Parchedig Dyfrig Lloyd. Cyflwynodd neges fyw a gafaelgar yn seiliedig ar y thema. Diolchodd Eirian Williams, Cadeirydd y pwyllgor i'r siaradwr gwadd am ei gyfraniad gwerthfawr, i chwiorydd yr eglwysi am eu gwaith graenus, i Weinidog a swyddogion Bethel am y croeso, i Janet am ei gwasanaeth wrth yr organ yn absenoldeb Nesta Harries oherwydd anhwylder, ac yn olaf ond nid y lleiaf, i Elizabeth Warmington yr Ysgrifennydd am ei pharatoadau trylwyr yn ôl ei harfer. Aeth pawb o'r oedfa gan deimlo mai da oedd bod yn bresennol mewn oedfa arbennig iawn. Gwnaed casgliad sylweddol o £98.00.

Noddfa

Daeth cynulliad teilwng ynghyd i Noddfa ar Sul y Mamau i oedfa arbennig wedi ei llunio gan Janet yng ngofal yr Ysgol Sul. Mewn pennill a chân bu'r plant a'r bobl ifanc drwy gyfrwng cyflwyniadau graenus iawn yn diolch am gariad Mam ac yn dathlu gwyrth y Gwanwyn a gorfoledd y Pasg. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Cerys a Steffan Roberts a Teon Rees a chyhoeddwyd yr emynau gan Lisa Evans, Osian Jones, Aled Hughes a Tomos Rhys. Y llefarwyr oedd Aron Dafydd, Sian Roberts-Jones, Llinos Jones ac Elliw Dafydd. Hefyd mwynhawyd can gan y merched ieuengaf sef Lisa, Beca Roberts ac Elan Jones, unawd gan Tomos Jones ynghyd ag adroddiad "Prynhawn y Grog" gan Sian Jones, Rhandir. Bu'r plant lleiaf sef Osian Roberts, Sion Evans, Rhys Tom, Dafydd Hughes, Lisa, Beca ac Elan yn canu gyda'i gilydd ac yn adrodd gan ddod a phleser mawr i bawb a'u boddhad a'u brwdfrydedd yn amlwg. Hyfryd oedd clywed Lowri Elen yn canu geiriau wedi eu cyfansoddi gan Beryl Davies un o aelodau Noddfa yn seiliedig ar Sul y Mamau ar emyn don gan Mair Long, cyn aelod o'r eglwys. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Alwena a chyfeiliwyd i'r plant gan Janet. Talodd y Parchedig Jill Tomos deyrnged uchel i'r plant a'r bobl ifanc am wledd arbennig, i'r rhieni am eu cydweithrediad, i Janet am ei pharatoadau manwl unwaith eto ac i bawb am eu cefnogaeth. Amlygwyd talent eithriadol y plant a'r bobl ifanc yn Eisteddfodau'r Urdd a dymunwyd yn dda i'r rhai sydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn Llaerchaeron a hefyd i'r rhai a ddewiswyd i gymryd rhan yn y sioeau cynradd ac uwchradd yn ystod wythnos yr Ŵyl. Roedd y plant wedi paratoi cardiau lliwgar i'w Mamau yn yr Ysgol Sul dan gyfarwyddyd Llinos a chyflwynodd Osian Jones un i'r Gweinidog a derbyniodd Janet un wrth Tomos. Mae dyled yr Ysgol Sul yn fawr i Alun ac Eifion am y rhodd o goed ar gyfer llwyfan newydd i'r sedd fawr ac i Derek am roi o'i amser i'w adeiladu. Tystiai pawb eu bod wedi cael bendith wrth gyd-addoli gyda'r ieuenctid mewn oedfa fendigedig.

Aelwyd yr Urdd

Daeth criw niferus o'r aelodau ynghyd i noson bleserus iawn o flasu pancos. Croesawyd Sian Jenkins yn gynnes iawn i'n plith gan Lowri Elen ac roedd wedi paratoi yn helaeth ar ein cyfer. Bu pawb wrthi'n brysur yn paratoi sawl llenwad iachus yn cynnwys ffrwythau ffres fel banana, mefus a llysiau duon. Ar ddiwedd y nos roedd pawb yn llyfu eu gwefusau wedi mwynhau pancos blasus iawn. Talwyd diolch haeddiannol i Sian am ei holl waith ac am fod mor barod i ddod i'r Aelwyd unwaith eto gan Sulwen. Edrychwn ymlaen at y tro nesaf! Ar y nawfed o Fawrth, cynhaliwyd un o uchafbwyntiau'r tymor sef yr Eisteddfod Ddwl. Beirniad y noson oedd Geinor Medi a Janet yn arwain. Cafwyd noson ddifyr iawn yn cymryd rhan mewn cystadlaethau ysgafn yn cynnwys côr meimo, dweud jôc, perfformio sgets wreiddiol a stori a sain a phawb yn ymuno yn yr hwyl a'r

Llanbedr Pont Steffan

sbri. Diolch yn fawr i'r aelodau am noson o chwerthin iach. Erbyn i Clonc fynd i'r wasg bydd yr aelodau wedi cymryd rhan mewn helfa Wyau Pasg ac ar 13 Ebrill trefnir gweithgareddau amrywiol yn y Ganolfan Hamdden o 7 hyd 8 o'r gloch.

Eisteddfod yr Urdd

Daeth llwyddiant i ran nifer o aelodau'r Adran a'r Aelwyd yn Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd. Cipiodd y parti unsain dan 12 y wobr gyntaf ac enillodd Meirion Thomas yr ail wobr yn yr unawd cerdd dant ac yn y llefaru dan 12. Cipiwyd y drydedd wobr gan y grŵp llefaru. Yn yr Eisteddfod Uwchradd ar 19 Mawrth roedd Gwawr Hatcher yn gyntaf yn yr unawd alaw werin Bl. 7, 8 a 9, Elliw Dafydd yn fuddugol yn y monolog Bl. 10 a dan 19 ac Aled Wyn Thomas ar y brig yn yr unawd bechgyn Bl. 10 a dan 19 oed. Hefyd dyfarnwyd Elliw yn ail yng nghystadlaethau'r llefaru, yr unawd allan o sioe gerdd a'r cerdd dant ac yn drydydd yn yr unawd. Roedd Meleri Davies yn ail yn yr unawd merched, Aron Dafydd yn ail yn yr unawd bechgyn, Lowri Elen yn ail yn yr unawd cerdd dant a'r unawd telyn ac yn drydydd ar y llefaru. Dyfarnwyd y trydydd safle i Llion Thomas yn yr unawd llinynnol a hefyd i Gwawr yn yr unawd piano. Yn ogystal â hyn, cipiodd yr Aelwyd y wobr gyntaf yn y parti deusain dan 15 a'r parti cerdd dant dan 19 a'r ail yn y grŵp llefaru dan 15. Llongyfarchiadau cynnes i'r aelodau i gyd ar eu llwyddiant a phob dymuniad da i'r unigolion a'r partïon sydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn Llanerchaeron. Mae dyled yr aelodau yn fawr iawn i Rhiannon ac Elin am roi o'u hamser prin i hyfforddi'r partïon a hefyd i Margaret Jones am ei gwasanaeth fel cyfeilydd. Gwerthfawrogir eu hymroddiad yn fawr. Diolchir hefyd i'r aelodau am eu teyrngarwch i'r ymarferion ac i'r rhieni am eu cydweithrediad parod bob amser.

Janet Evans, Caryl Jacob â llywydd Eisteddfod Gylch yrn Urdd sef Mr Gareth Morgans, Abergwili.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant a'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Gyrfa Chwist – Hafan Deg

Ar nos Fercher, 3ydd o Fawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn: Dynion: 1af Ray Jenkins, Llanybydder. 2il Gerwyn Jones, Cellan. 3ydd Emrys Evans, Llanllwni. Merched: 1af Gwenda Thomas, Cwmann. 2il Margaret Jones, Pentrebach. 3ydd Nanna Davies, Stryd Newydd. Carden Miniature: Dynion: Peggi Davies, Bro Henllys, Felinfach. Merched: Morfydd Slaymaker, Llambed. Bwrw Allan – 1af Harry Williams, Ystrad Aeron a Gwendoline Jones, Llanybydder. 2il Nanna Davies, Stryd Newydd a Iorwerth Evans, Llangybi.

Nos Fercher, 17eg o Fawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist gyda Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain unwaith eto. Enillwyr fel a ganlyn: Dynion: 1af John Jones, Stryd Newydd. 2il Iorwerth Evans, Llangybi. 3ydd Richard Stevens, Heol y Goedwig. Merched: 1af Ifan P, Jones, Aberarth. 2il Mary Evans, Llanwnnen. 3ydd Nanna Davies, Stryd Newydd. Carden Miniature: Dynion: Maggie Vaughan, Felinfach. Merched: Gwendoline Jones, Llanybydder. Bwrw allan: 1af Ifan P. Jones, Aberarth a Ifan John Jones, Bro Henllys, Felinfach. 2il Morfydd Slaymaker a Mary Jones, Stryd y Bont.

Cynhelir Gyrfaoedd Chwist mis Ebrill ar y 14eg a'r 28ain. Croeso cynnes i bawb.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Ysgol Ffynnonbedr

Dathlwyd dydd ein Nawddsant drwy gynnal cyngerdd ac eisteddfod yn yr ysgol. Beirniaid y dydd oedd Mr a Mrs Owen Jones a diolch iddynt am ei gwaith diflino. Cyflwynwyd y tariannau a'r cwpanau i'r buddugwyr gan Mrs Rhian Evans Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Dyma ganlyniadau'r Seremoni Cadeirio a roddir am ysgrifennu stori: Blwyddyn 1 a 2 – 1af Kyle Hughes, 1af Aishoo Sridar 2ail Lauren Hill, 2ail Lian Evans 3ydd Elan Jones, 3ydd Mariyyah Abdul Halim Blwyddyn 3a 4 – 1af -Osian Jones, 1af – Laura Arthur, 2ail -Grace Page, 2ail – Theo Teasdale 3ydd- Lucy Hill, 3ydd- Sam Brammeld. Blwyddyn 5 a 6 – 1af – Rhian Harries, 1af – Aarifah Lala, 2ail – Jessica Charles Davies, 2ail – Nikita Petry 3ydd – Elen Lewis, 3ydd – Soren Luchte Thomas, Dylan Hemmings. Buddugwyr eisteddfod y bore oedd Pedr a derbyniwyd y cwpan gan y capteiniaid Jac Williams a Mererid Thomas. Buddugwyr y prynhawn oedd Steffan a derbyniwyd y darian gan y capteiniaid Rhian Harries a Jake Gartland. Arweinydd y côr buddugol oedd Teon Rees o dy Dewi a Carie Collom a dderbyniodd y darian am y dawnsio disgo ar ran tŷ Steffan. Diolch i'r plant a'r staff i gyd am eu hymroddiad.

Llongyfarchiadau i Teon, Caryl, Meirion, Charlotte, Lois a Tomos ar gael eu dewis i fod yn rhan o'r Sioe Gynradd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn Llanerchaeron. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yn perfformio.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn ffodus i gael mynd ar daith i Gasnewydd i'r Ganolfan adar yno a chael diwrnod pleserus iawn. Roedd Mrs Beti Davies mam-gu Scott wedi ennill y wobr a diolch iddi am roi'r cyfle i'r ysgol i fynychu.

Bu nifer o'r disgyblion yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd yn ddiweddar. Cafwyd diwrnod pleserus iawn yn Aberaeron.

Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn yn yr Eisteddfod Gylch gyda nifer o'r disgyblion yn serennu ac yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Sir. Yr ysgol a'r adran oedd yn gyfrifol am drefnu'r eisteddfod eleni a diolch i bawb yn blant, staff, rhieni a ffrindiau a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y dydd. Cafwyd diwrnod hir ond buddiol hefyd ym Mhontrhydfendigaid yn yr Eisteddfod Sir.

Dyma'r canlyniadau-Parti Deulais, Parti'r Adran, Mariyyah Abdul Halim a Charlotte Saunders yn cipio gwobr gyntaf. Côr yr ysgol, llefaru i ddysgwyr, Joseph Saunders, Meirion Thomas yn cipio ail wobr a pharti llefaru'r adran yn cipio trydydd. Llongyfarchiadau hefyd i Sioned Davies, Tomos Jones, Elan Jones, ymgom i ddysgwyr a chôr yr adran am eu perfformiadau yn y Sir.

Yn yr eisteddfod ddawns cipiwyd y wobr gyntaf gan y Tîm Dawns Cyfrwng gyda'r disgo, y ddawns werin a Charlotte Saunders yn dod yn ail.

Diolch i'r staff sydd wedi rhoi o'u hamser i gynorthwyo ymhob ffordd gyda'r hyfforddi a'r paratoi gogyfer a phob eisteddfod.

Bu Iestyn Owens yn rhedeg yn nhraws gwlad Dyfed yng Nghaerfyrddin a chipio medal am ddod yn bumed. Da iawn ti Iestyn. Hefyd bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn rhedeg yn nhraws gwlad y cylch gan ddod â chryn lwyddiant i'r ysgol. Bydd y buddugwyr yn mynd ymlaen i redeg yn Llangrannog ar Ebrill 30.

Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 2 a 6 wedi bod yn ysgrifennu barddoniaeth ac maent wedi llwyddo i'w cael eu cynnwys mewn llyfr sydd yn cael ei baratoi yn dilyn y gystadleuaeth a drefnwyd gan "Young Writers" Edrychwn ymlaen at ddarllen eu gwaith mewn print.

Ysgol Ffynnonbedr - Parti Llefaru i ddysgwyr 2il

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Carys Roberts**
Oed: 23
Pentref: Pont Creuddyn
Gwaith: Nyrs yn Adran Achosion Brys a Damweiniau Ysbyty Bronglais Aberystwyth.
Partner: Gareth Evans
Teulu: Dad (Peter), Mam (Ann), Chwaer (Sharon)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Atgofion hyfryd o'r amser a dreuliais efo Tad-cu a Mam-gu.

Hoff raglen pan yn blentyn.
Wil Cwac Cwac.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Pan rwyf yn cael fy atgoffa fy mod wedi defnyddio toilet arddangos yn MFI pam oeddwn yn blentyn bach.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I fod yn gwrtais a helpu eraill.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Spice Girls, 'ych a fi'.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Gyrru lori sbwriel pinc.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Adref efo teulu ac allan efo ffrindiau.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Elin Fflur y gantores, ond canu yn y bath yn unig fedra i wneud.

Pwy yw dy arwyr?
Tad-cu.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Fod yn agos at deulu a ffrindiau.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg bob tro.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Gareth yn clebran a thwrio yn ei gwsg.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

Pan wnaeth Dyfan a Gary guro ar y drws am 4 y bore yn chwilio am le i gysgu.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Graddio fel Nyrs a chael swydd yn gweithio yn Adran Achosion Brys a Damwainiau.

Ac yn bersonol?
Prynu tir i adeiladu cartref efo Gareth.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?
Dŵr Ystrad Fflur.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Gweithio yn Adran Achosion Brys a Damwainiau.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
I joio bywyd.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Gadael ysgol a dechrau gweithio.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Caredig, hapus a brwdfrydig.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Renault Clio.

Beth yw dy hoff adeilad?
Willerby Granada 35*12.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Gareth Evans wrth gwrs.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese.

Beth yw dy hoff arogl?
Coginio mam.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Mynd am fwyd a sgwrs efo ffrindiau.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Fy nghyfnither Alwen, a enillodd 'Casa Dudley' yn 2007.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Tafod er mwyn cael siarad yn ddiddiwedd.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Pepsi'r ast fach.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Canu.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Chwerthin gymaint ag sy'n bosib.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Rheoli busnes fy hun.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Portmeirion 'Crazy Daizy'.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Iechyd.

Y gwyliau gorau?
Disney Land Florida efo'r teulu pan oeddwn i'n blentyn.

Unrhyw dalentau cudd?
Chwarae'r Clarinet .

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Hedfan.

Petaet ti'n anweladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti'n ei wneud?
Busnesa o amgylch tŷ Simon Cowell.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Gwneud Swdocw.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Byw bywyd teuluol hapus gobeithio.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Rhys Jones, Cribyn.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

9								1
	7	8	4				2	
				7	8		6	
		2	8		7		4	
		7				2		
	6		2		3	1		
	3		6	8				
	2				4	6	1	
1								3

Atebion Swdocw mis Mawrth: Llongyfarchiadau i **Elen Thomas, Golygfa, Llambed** a diolch i bawb arall am gystadlu: Eurwyn Davies, 47 Heol-y-Gaer, Llanybydder; Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder, Glenys Thomas, Llysteifi, Llanybydder; Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder; Parch Beti Morris, Bro Mihangel, Felinfach ac Avril Williams, Y Fedw, Cwmann.

7	4	2	5	8	1	3	6	9
8	3	6	2	4	9	1	7	5
1	9	5	7	6	3	2	8	4
2	6	3	4	1	8	5	9	7
4	7	9	3	2	5	8	1	6
5	8	1	6	9	7	4	2	3
3	5	8	9	7	2	6	4	1
9	1	4	8	5	6	7	3	2
6	2	7	1	3	4	9	5	8

Llanybydder

Diolch

Dymuna Maud Davies, Ordolau ddiolch o waelod calon am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd yn ddiweddar pan ddathlodd ei phen-blwydd yn 90. Gwerthfawroga'r parti a drefnwyd gan Eirian a Sharon yn ei chartref i groesawu'r ffrindiau a alwodd i ddathlu'r achlysur.

Arwerthiant Aberduar

Cynhaliwyd Arwerthiant llwyddiannus yn y festri nos Fercher, Mawrth 17. Croesawyd pawb yn gynnes gan y gweinidog y Parchedig Jill Tomos.

Daeth torf gryno o aelodau a ffrindiau'r achos ynghyd i brynu'r nwyddau amrywiol. Methodd Eirioes Elfyn, Caerdydd, (Emporium gynt) un o blant Aberduar,a wahoddwyd i agor y noson fod yn bresennol, ond, derbyniwyd cyfarchion cynnes ganddi a rhodd sylweddol at y coffrau. Bu'n noson hwylus dros ben a gwerthfawrogir yr holl drefniadau arferol i sicrhau llwyddiant y noson.

Aelwyd Newydd

Gwnaeth Dewi a Bet Davies, symud o Coed-y-glyn i Glynteg yn ystod y mis. Gobeithio eich bod yn hapus ar eich aelwyd newydd.

Eglwys Sant Pedr, Llanybydder.

Ar ran aelodau Eglwys Sant Pedr, Llanybydder, carwn ddymuno ymddeoliad hapus i'r Parchedig Bill Fillery. Yng ngwasanaeth olaf Bill yn yr Eglwys gwnaeth Eurwyn, Warden y Ficer, dweud Diolch wrth Bill am bopeth, a rhoi rhodd ariannol iddo, oddi wrth aelodau a ffrindiau yr Eglwys. Darllenodd Jean, Warden y Bobol, penillion allan, o waith Llinos Dafydd. Hefyd rhoddwyd rhodd i Elizabeth, gwraig Bill, oddi wrth yr Eglwys, i ddangos ein gwerthfawrogiad iddi hi. Diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad ac i Llinos am ysgrifennu penillion mor arbennig.

Wrth i ni ddymuno pob hapusrwydd i Bill a Elizabeth, trist ydym i golli Ficer mor arbennig. Mae pawb yn y Plwyf, ar ardal, yn gwerthfawrogi'r holl waith a wnaeth Bill drosom. Mae ei garedigrwydd, ei amynedd ai doniolwch wedi bod yn gymorth ac yn galondid i bawb, boed yn aelod yn yr Eglwys neu beidio. Byddwn yn gweld eisiau popeth roedd Bill yn eu gwneud i ni, ac rwy'n siŵr fydd na golled mawr yn y gymdeithas heb ei Lythyr wythnosol.

Dymunwn flynyddoedd lawer o iechyd ac o hapusrwydd i Bill a Liz yn eu cartref newydd yn Llambed. Rydym yn hapus iawn fod y ddau heb symud yn bell! Diolch Bill am fod yn Ficer ac yn ffrind arbennig.

Penillion i Bill y Ficer

I Bill, ein ficer, rhown glod i chi
Am fod yn ffrind arbennig iawn i ni
Am fod mor weithgar a pharod i wrando -
Am fod yn glust – doed a ddelo.

Mor lwcus yw'r Eglwys i gael dyn mor glên
Mor addfwyn a thyner – yn gwneud popeth 'da gwên,
Popeth yn gampus bob tro, yn ddi-ffael,
Yn rhoi help llaw pan mae pethau'n troi'n wael.

Bill, annwyl, chi'n werth y byd
Yn gwneud popeth i'n helpu ni o hyd,
Ymddeoliad hapus i chi yn awr
Chi'n drysor i ni – diolch yn fawr.

Llinos Dafydd

Eurwyn (Warden y Ficer) Y Parchedig Bill Fillery, Jean (Warden y bobol) a Elizabeth Fillery.

Cwmsychpant

Llongyfarchiadau

Ymfalchïwn fel aelodau Capel y Cwm yn llwyddiant ein gweinidog, Parch Wyn Thomas gan iddo gael ei ddewis yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn am y cyfnod 2010-2011 yng Ngheredigion. Mae Wyn yn aelod ffyddlon iawn o G.Ff. I. Pontsian ar hyd y blynyddoedd diwethaf ac mae pawb yn edrych ymlaen nawr i weld Wyn yn derbyn ei anrhydedd yn Rali'r Mudiad yn Llanddeiniol yn ystod mis Mai eleni.

Ysgol Sul

Mae Ysgol Sul Capel y Cwm wedi ail gychwyn ers canol mis Mawrth. Mae Nia Davies, Maesglas wedi cymryd yr awenau gyda rhieni yn ei chynorthwyo. Mae croeso cynnes i unrhyw un newydd i ymuno gyda ni.

Cydymdeimlo

Yn ystod y mis daeth profedigaeth i ran Ian a Chris Jones a'r teulu, Tŷ Crian yn dilyn marwolaeth ei dad David Jones yn 88 oed. Bu'r gwasanaeth yng Nghapel y Cwm ac yno rhoddwyd ei weddillion i orffwys.

Llwyddiant yn yr Urdd

Daeth llwyddiant i nifer o blant yr ardal yn Eisteddfodau Rhanbarthol yr Urdd eleni boed yn unigolyn neu mewn grŵp ac hefyd yn y Celf, Dylunio a Thechnoleg. Da iawn chi.

Cellan

Dathlu

Pen blwydd hapus iawn yn 60 oed i Bleddyn Williams, Cnwcyfallen. Mwynhewch y dathlu!

Mae CLONC ar werth yn:
Awen Teifi, Aberteifi
Caxton, Llambed
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambed
Eryl Jones, Llambed
Garej Checkpoint, Harford
Glennydd, Cwrtnewydd
Siop Gomerian, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambed
Lomax, Llambed
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop Llangybi
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tafarn Glanyrafon, Talgarreg
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

Creative Cove
40A Y Stryd Fawr, Llambed, ☎ 421985
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch, - mapiau arolwg ordnans, - deunyddiau postio a phacio, - deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton, - padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W D Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
☎ 01570 422540
Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan
Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR, COMISIYNWYR LLW ON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Llanwnnen

18 oed

Dathlodd Laura Thomas, Bro Cadarn ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Mawrth. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

Ysgol Llanwnnen

Bu'r ddau dîm yn cystadlu yn yr ail rownd y Cwis Llyfrau. Rydym dal yn aros am y canlyniad!!!

Cynhaliwyd noson Cawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell ar nos Lun, Mawrth 8fed. Bu disgyblion yn perfformio eitemau'r Urdd yno. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am eu rhodd hael i Adran yr Urdd.

Yn dilyn ein llwyddiant yn Eisteddfod Gylch yr Urdd bu rhaid mynd i Eisteddfod Rhanbarth. Roedd yr eisteddfod Cynradd ar ddydd Sadwrn, Mawrth 13eg a chafodd y Grŵp Cerddoriaeth Creadigol yr ail wobr a Lewis Jarvis-Blower y 3ydd wobr am lefaru unigol i ddysgwyr Bl. 3 a 4. Yna roedd yr Eisteddfod Ddawns ar ddydd Mercher, Mawrth 17eg a chafodd y Grŵp Dawns Werin Bl. 4 ac Iau yr ail wobr hefyd. Da iawn chi gyd. Aeth nifer o eitemau i'r Eisteddfod Rhanbarth y Celf a Chrefft hefyd. Cafwyd saith gwobr maent o dan y canlyniadau.

Yn ystod y mis mae'r plant wedi bod yn derbyn gwersi Addysg Grefyddol o gynllun Bible Explorer a hefyd sesiynau drama gan Mari Owen o Arad Goch.

Cafwyd ymweliad gan PC Gwyndaf Lloyd a Phil Thomas o Tŷ Hafan. Byddwn yn cynnal gweithgaredd yn yr ysgol i godi arian y tymor nesaf.

Bu holl ddisgyblion yr Adran Iau yn cystadlu yn y Traws Gwlad y Cylch ar brynhawn dydd Gwener, Mawrth 19eg.

Bu disgyblion Ysgol Feithrin Drefach yn ymweld â'r ysgol ar ddiwedd y tymor a bu Miss Davies yn gwneud cerdyn Pasg gyda hwy. Hefyd bu Mrs Sally Jones, Siop y Pentref yn yr ysgol yn addurno wyau Pasg mewn ffyrdd gwahanol.

Sefydliad y Merched

Yn ôl ei arfer bu Sefydliad y Merched yn dathlu Gŵyl Dewi. Eleni, cafwyd swper hyfryd o Gawl Cennin a phice ar y maen yng Nghaffi Mark Lane, Llambed. Diolchodd ein llywydd Mrs Gwen Davies i Mr & Mrs Elfan James am eu croeso cynnes ac am y wledd hyfryd. Enillydd cystadleuaeth y mis oedd Mrs Mary Davies.

Mrs Gwennan Thomas, Talgrwn oedd gwraig wâdd mis Chwefror – arbenigwraig ym myd ceffylau. 'Roedd yn amlwg yn ymhyfrydi yn ei gwaith a oedd yn rhoi llawer o fwynhad a phleser iddi. Edrychir ymlaen nawr i ymweld â Talgrwn i weld Gwennan wrth wrth ei gwaith.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Ngwesty'r Grannell ar nos Lun, 12fed o Ebrill gyda Mrs Yvonne Davies y nein tywys ni nôl i Stryd Fawr, Llambed.

Cerian Jenkins, Ffion Jenkins, Sophie Herron, Catrin Rosser, Ellen Jones a Twm Ebbsworth sydd wedi eu dewis i fod yn rhan o gast Sioe Cynradd Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

Plant Ysgol Sul Capel y Groes, Llanwnnen yn cyflwyno siec o £500.00 i Tom Defis o Gymorth Cristnogol mewn gwasanaeth ar fore Sul 7 Mawrth. Casglwyd yr arian ystod y flwyddyn mewn Boreau Coffi Masnach Deg sydd yn cael eu cynnal ar y Sul cyntaf ymhob mis pan mae mynychwyr y Gwasanaethau ymweld ar Ysgol Sul i gymdeithasu a mwynhau cwmnïaeth ei gilydd.

Ysgol Gynradd Llanwnnen

Angen: **Cynorthwy-ydd Cynnal Dysgu**

30 awr yr wythnos [llawn amser]

Angen cyn gynted ag sy'n bosibl.

Cyflog: £6.62784 yr awr (cyflog yn cael ei rannu dros 12 mis)

Mae angen person brwdfrydig i weithio gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Er nad oes angen cymwyster gogyfer â'r swydd, mi fyddai hyn yn fanteisiol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Pennaeth Mr. Siôn Mason-Evans.

(01570) 480 203 neu prif@llanwnnen.ceredigion.sch.uk

Dylid danfon llythyr cais a'i ddychwelyd i'r ysgol.

Dyddiad Cau: 9fed Ebrill 2010 (Canol dydd)

LLEOL I MI Canolbarth PAPURAU BRO

NEUADD COFFA

Mae rhannau o'r rhifyn hwn o CLONC ar safwe Cymru'r Byd y BBC:
www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc

Diogelwch Cartref 1500

Mae'r Cynllun Diogelwch Cartref sy'n cael ei weithredu gan Gofal a Thrwsio Ceredigion wedi cyrraedd carreg filltir arwyddocaol drwy gwblhau 1500 o Asesiadau Diogelwch Cartref ers ei sefydlu yn 2004.

Dr a Mrs Richards oedd y 1500fed cleient i dderbyn Asesiad Diogelwch Cartref a medden nhw, "Byddem yn argymell y cynllun hwn i bob person hŷn. Mae'r swyddogion mor broffesiynol a chyfeillgar. Mae'r rheiliau wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i'n hyder a'n gallu i aros yn annibynnol, ac roedd safon y gwaith yn arbennig"

Mae'r asesiad yn cynnwys sut i atal damweiniau a pheryg cwympo; atal tân a diogelwch; effeithlonrwydd ynni a budd-daliadau lles, ac mae ar gael i bobl dros 65 ar draws Ceredigion. Lle gwelir fod 'na risg, mae'r gwaith yn cael ei gytuno ac yn cael ei wneud gan y Crefftwr Diogelwch Cartref. Gall hynny gynnwys canllawiau ar risiau a rheiliau, cloeon, offer atal drafftiau a synhwyrydd mwg.

Mae'r Cynllun Diogelwch Cartref yn derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Sir Ceredigion, a dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Keith Evans "Mae'r gwasanaeth hwn yn un ardderchog ar gyfer pobl hŷn yng Ngheredigion. Mae'n help i atal damweiniau yn y cartref a allai arwain at gyfnod yn yr ysbyty. Mae hefyd yn enghraifft berffaith o weithio mewn partneriaeth rhwng y Cyngor Sir a'r sector gwirfoddol a hynny er mwyn darparu gwasanaethau sy'n ei gwneud hi'n bosib i bobl hŷn aros yn eu cartrefi yn ddiogel a chysurus."

Mae Gofal a Thrwsio Ceredigion yn rhan o Cantref, ac mae wedi bod yn darparu gwasanaethau yn y cartref ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yng Ngheredigion ers 1996. Dywedodd Lynne Sacale, Prif Weithredwr Cantref, "Mae hwn yn llwyddiant arbennig ac rydym yn gobeithio y bydd y cynllun yn llwyddo ymhellach yn y dyfodol. Mae'n wasanaeth hanfodol i atal cwympo a damweiniau yn y cartref ac i gynnal iechyd a lles pobl"

Os hoffech chi Asesiad Diogelwch Cartref, cysylltwch â Gofal a Thrwsio Ceredigion ar y rhif cyfradd lleol 08452601640.

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Ar Fawrth 10fed, cynhaliwyd cystadleuaeth coginio'r Urdd, sef 'Cogurdd' yng Ngholeg Pibwrlwyd yng Nghaerfyrddin. Bu Emma Newton-Jones a Kate Jones o flwyddyn 8 a Megan Jenkins o flwyddyn 10 yn cystadlu. Bu Emma a Kate yn paratoi cawl tymhorol a rholiau bara. Roedd y gystadleuaeth o safon uchel ac fe gafodd y merched lawer o fwynhad o'r profiad. Bu Megan yn coginio tartenni sawrus, parseli cyw iâr Eidaleg a salad tomato a basil. Roedd Megan yn fuddugol ac y mae'n mynd ymlaen yn awr i gystadlu yn y rownd derfynol fydd yn cael ei chynnal ar faes yr Eisteddfod yn Llanerchaeron. Llongyfarchiadau i'r tair ohonynt a phob lwc i Megan.

Er gwaethaf y tywydd mawr ddechrau Ionawr, cafodd disgyblion Blwyddyn 7 dridiau llawn hwyl a chyffro yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog.

Cychwynnodd un deg pedwar o fyfyrwyr o'r ysgol fore Mercher yr ugeinfed yn llawn cyffro ac yn barod i fwynhau'r gweithgareddau cyffrous fel sgïo, nofio, gwibgartio, merlota, beiciau cwad, cartiau modur a thrampolîn bynji. Cafodd y disgyblion gyfle euraidd i ymarfer eu Cymraeg wrth wneud y gweithgareddau a rhoddodd Miss ambell i wers 'swyddogol' hefyd.

Daeth pawb yn ôl i'r ysgol wedi blino'n shwps ond yn llawn atgofion melys am wneud y tridiau yn un mor arbennig.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol sydd wedi ennill gwobrau yn ddiweddar yn yr 'UK Intermediate Maths Challenge'

Aur Rowan Evans Bl 11;

Arian Chris Fox Bl 11; Bodhi Evans Bl 10; Ceri Cranfield Bl 9

Efydd Daniel Edwardes Bl 11, John Janes Bl 11; Meg Edwards Bl 10; Rhydian Jenkins Bl 10; Amelia Davies Bl 10; Finn Humphrey Bl 9; Richard Davis Bl 9; Ellen Edwards Bl 9; Joseph Jenkins Bl 9 Daniel Sandomierski Bl 9

Estynnwn groeso cynnes i Maria Perez Gomez o Sbaen a hefyd i Sarah Rochette o Ffrainc. Fe fydd y ddwy yn gweithio fel 'assistantes' yn yr adran ac yn ymarfer sgiliau llafar gyda disgyblion blwyddyn 12 a 13 sy'n astudio AS a Lefel A.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol sydd wedi cael eu dewis i fod yn aelodau o'r cast yn Sioe Gerdd Hŷn Eisteddfod yr Urdd 2010 yn Llanerchaeron - 'Plant y Fflam':- Lowri Pugh Davies Bl 12 Elliw Dafydd Bl 12 Gwawr Hatcher Bl 9 Siân Elin Bl 9 Dewi Uridge Bl 9 Aron Dafydd Bl 9. Dewiswyd Delyth Evans, Lowri Elen a Hannah Timmis o flwyddyn 8 i fod yn corws. Da iawn chi.

Ar Ddydd Sul, Mawrth 14eg, bu'r disgyblion canlynol yn brysur yn neuadd Ysgol Aberaeron yn paratoi repertoire ar gyfer y cyngerdd blynyddol:- 7D Elin Hughes; Ammie Inman; Rhiannon Davies; Caitlin Page; Beca Davies.7P Niamh Marshall. 7N Rebecca McEnery; Emma McEnery. 8D Delyth Evans; Melissa Davies; Lowri Jones; Carys Jones ; Hannah Timmis. 8N Gwennan Holt. 8P Sulwen Richards 8G Klean Dalton; Zak Patterson. 9P Lauren James Meleri Davies; Siân Elin Williams; Sophie Jones; Lauren Jones; Gwawr Hatcher. 9S Julia Szewcsak; Kymberly Mills. 9N Ianto Jones.

Llongyfarchiadau i Rhian Davies, Siona Evans, Alaw Williams, Sam Garside, Aled Lewis, Brynmor Jones a Lewis Watkins, blwyddyn12 ar ennill Cymhwyster OCN Lefel 2 "Hyfforddiant Arweinyddiaeth Grŵpiau Ieuenctid Iau". Gwobrwywyd nhw â'u tystysgrifau gan Luned George, Swyddog Datblygu Ieuenctid Ceredigion. Enillon nhw'r cymhwyster tra'n 'Swogs' yng Nglan-llyn, Hydref diwethaf - lle buon nhw'n hyfforddi a meithrin sgiliau ym meysydd Arwain, Hyfforddi, Cyfathrebu, Bugeilio a Chynorthwyo. Ymfalchïwn yn eu llwyddiant, a hoffai Adran y Gymraeg ddiolch iddynt am bob cymorth.

Llongyfarchiadau mawr i Shawn Brown sydd newydd ennill Gwobr Peiriannydd Ifanc y Flwyddyn. Roedd Shawn, sy'n gyn-ddisgybl yn cynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth ar ôl ennill Rownd Derfynol Rhanbarthol Cymru yng Nghystadleuaeth Peiriannydd Ifanc Prydain. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Busnes, yr Arglwydd Mandelson dlws a siec o £2000 iddo yn y ffair wyddoniaeth a pheirianneg ym Manceinion ar Fawrth 12fed.

Mae Shawn hefyd yn ennill trip i NASA neu i 'Earthwatch' yn Alaska, yn ogystal â thrip i weld y 'Large Hadron Collider' yn CERN neu Arsyllfa 'Roque de los Muchachos' yn La Palma.

Fe gynlluniodd feic Bambŵ Gorweddol a bwriad y prosiect oedd datblygu prototeip ar gyfer cerbyd ysgafn wedi'i bweru gan belydrau'r haul, sy'n cynnig ffordd o deithio sy'n 100% rhydd o allyriadau carbon.

Datblygodd y beic wrth astudio ar gyfer ei Lefel A mewn Dylunio a Thechnoleg yn yr ysgol. Roedd am greu beic a oedd mor gynaliadwy â phosibl, yn gwneud defnydd o gynifer o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu, ailddefnyddio ac amgylcheddol-gyfeillgar â phosibl

Mae Shawn a'i feic eisoes wedi cael tipyn o sylw, wedi ymddangos ar sioe S4C 'Mosgito' ac wedi denu cryn sylw wrth baratoi fideo yn hyrwyddo'r beic o amgylch pentref Llanybydder. Mae eisoes wedi profi llwyddiant, drwy ennill gwobr Arloesedd CBAC gyda'i gynllun arloesol 'Eco friendly squirrel proof bird feeder.' Er bod Shawn ar hyn o bryd yn cymryd blwyddyn allan cyn mynd i Brifysgol Exeter i astudio am radd mewn peirianneg adnewyddadwy, nid yw Shawn yn berson i ymlacio. Y mae wedi dechrau elusen newydd o'r enw 'Engineering for Africa' gyda help dau gyn-ddisgybl o'r ysgol, Russell Pink a Kieran Hollingsworth. Mae E4A yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr sy'n dangos diddordeb mewn peirianneg, deithio i Affrica er mwyn gweithio gyda pheirianwyr lleol a phrofiadol.

Mae Shawn hefyd yn hyrwyddo gwaith 'Re-Cycle', elusen sy'n rhoi hen feiciau i Affrica, ac y mae wedi sefydlu man casglu ger 'Denmark Farm' yn Llanbed.

Cynhaliwyd y cyngerdd ar nos Lun, Mawrth 15fed yn Neuadd Goffa Aberaeron ac roedd yn bleser gweld cymaint o blant Llanbed yn perfformio yn y côr. Ar nos Sadwrn Mawrth 13eg, bu disgyblion lefel A Cerdd yn Neuadd Fawr Aberystwyth yn gwrando ar eu gwaith gosod, y Consierto i'r piano gan Ravel yn cael ei berfformio gan Philomusica Aberystwyth. Ar Fawrth 5ed cynhaliwyd bore coffi yn neuadd yr ysgol er mwyn helpu criw o gyn-ddisgyblion ar eu taith i Ghana. Roedd yn braf medru croesawu nifer o gyn-ddisgyblion yn ôl i'r ysgol. Codwyd £517 tuag at yr achos. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac hefyd i 8 N am drefnu'r digwyddiad. Bu nifer o wirfoddolwyr yn brysur iawn yn gwau cywion Pasg ac yn eu llenwi ag ŵy siocled! Gwerthwyd 600 ohonynt yn yr ysgol gan godi £600 tuag at yr elusen Marie Curie. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

Llongyfarchiadau gwresog i Caitlin Page a Ffion Quan am wneud yn arbennig o dda ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Cymru yn Aberhonddu ar Chwefror 27ain. Daeth Ffion yn 7fed a Caitlin yn 10fed.

Yn y Gegin gyda Gareth

Pasg Hapus!

Rwyf wrth fy modd gyda'r Pasg, oherwydd mae'n arwydd fod y Gwanwyn yma. Cyfle i gael y teulu ynghyd i ginio, ac wrth gwrs mae'r gegin yn llawn danteithion o bob math, o bwdinau i wyau'r Pasg. Mwynhewch y paratoadau.

Pob hwyl,
GARETH.

Treiffl Ceuled Lemwn (Lemon Curd).

Cynhwysion

1 pecyn o sponge fingers
4 llond llwy fwrdd o geuled lemwn
6 owns hylif o sieri
510 ml o hufen dwbl
Siwgr caster
4 owns hylif o sudd lemwn ffres
Sest un oren

Addurn

250ml o hufen chwipio
2 llond llwy fwrdd o geuled lemwn

Dull

- Gwasgarwch y ceuled lemwn dros y sponge fingers a'u gosod ar waelod dysgl. Arllwyswch y sieri drostynt a defnyddiwch gefn llwy i'w gwasgu i lawr.
- Rhowch yr hufen mewn sosban gyda'r siwgr a dewch i'r berw. Trowch y gwres i lawr a gadewch i fudferwi am tua 3 munud. Tynnwch o'r gwres ac ychwanegwch y sudd a'r sest.
- Cymysgwch ac arllwyswch dros y sponge – gadewch i oeri.
- Curwch yr hufen curo a phlygwch y ceuled lemwn i mewn i greu effaith marmor. Gwasgarwch dros y cyfan.

Gwledd i'r plant.

(Resait i'r plant - gyda digon o siocled).

Cynhwysion

100 gm o fenyn
1 llond llwy fwrdd o goco
5 owns o fotymau siocled (chocolate buttons).
75 gm o surop
4 shredded wheat
Ychydig wyau bach siocled

Dull

- Rhowch y menyn, mewn powlen gan ychwanegu'r coco, botymau siocled, a'r surop. Rhowch yn y ffwrn micro ar wres uchel am 1½ munud nes bod y cyfan wedi toddi.
- Malwch y shredded wheat i mewn i'r gymysgedd a chymysgwch yn dda.
- Gosodwch ddeuddeg dysgl bapur ar blât a rhennwch y gymysgedd rhwng y deuddeg gan wneud gwagle fel nyth yn y gymysgedd.
- Rhowch yr wyau siocled yn y nyth ac oerwch am ½ awr. Danteithion perffaith i de'r Pasg neu fel anrhegion bach.

Caio - Dathlu'r 140 mlynedd

Tybed a wyddoch chi pwy yw cyn-disgybl hynaf Ysgol Caio? Byddai'r ysgol yn falch o dderbyn gwybodaeth am enwau a chyfeiriadau cyn disgyblion er mwyn estyn croeso i'r holl ddisgyblion a'u teuluoedd yn ôl i'r achlysur arbennig hwn. Mae'r paratoadau yn mynd ymlaen yn hwylus ar gyfer penwythnos dathliadau'r Ysgol ar 29ain a`r 30ain o Fai. Bydd y dathliadau'n dechrau prynhawn Sadwrn gyda'r mabolgampau ar gae'r ysgol am 1.30y.p. Bydd te i bawb yn yr ysgol am 3 y prynhawn cyn ddechreuir y ras gychod ar yr afon Annell am 4yp. Ymlaen wedyn i Gilgawod ar gyfer yr ocsiwn a rhostio'r mochyn am 7.30p.m. cyn ddaw Dafydd Iwan i ddiddanu pawb gyda band Free Beer yno i barhau'r hwyl. Gellir cael tocynnau i wrando ar Dafydd Iwan am £9 ymlaen llaw neu £10 ar y noson. Bydd tocynnau ar gael gan yr ysgol ,y rhieni neu aelodir pwyllgor ddiwedd mis Mawrth..

Ar y Sul bydd Oedfa yn yr Eglwys lle bydd nifer o gyn-ddisgyblion o bob degawd yn cymryd rhan ynghyd a `r plant sydd yn ddisgyblion yno nawr. Gan bod ysgolion Cwmcothi a Chrug-y-bar bellach wedi ymuno ag ysgol Caio byddai'n braf gweld cyn-ddisgyblon yr ysgolion hynny yn gwneud hwn yn aduniad iddynt hwy hefyd. Gobeithio ymunwch chi a ni yn y dathliadau.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

MIS Y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Y lili a'r sbwriel

Mae'r lili wen fach wedi bod yn werth ei gweld ym môn y cloddiau ac, o'r diwedd, tua thair wythnos yn hwyr, mae cennin Pedr yn dechrau chwythu'i drwmped.

Ond, gwaetha'r modd, nid dyna'r unig beth sydd yn y cloddiau'r dyddiau hyn. Dwn i ddim ai henaint sy'n gyfrifol, ond dw i wedi mynd i sylwi mwy a mwy ar y rybish sydd ymhobman.

Allwch chi fynd i unman bellach heb weld heb ganiau cwrw, poteli plastig a'r bocsys polysteirin yn sy'n mynd am fwyd MacDonalds. Dyn a ŵyr sut y mae'r rheiny'n cyrraedd ardal Llanbed ... ond maen nhw.

Yn y coedwigoedd, wedyn, dydi hi'n ddim i ddod o hyd i hen beiriant golchi neu soffa, neu fatres gwely ac mae ambell i rewyn ar y mynydd yn llifo wedi hen sychu o ran dŵr ond yn llifo gan bob math o sbwriel.

Mae'n anodd credu bod pobol yn mynd i'r drafferth o gario'r holl stwff i'r llefydd anghysbell yma, yn hytrach na mynd â nhw i ganolfan sy'n eu cymryd am ddim. Mae'n fwy anodd fyth credu eu bod nhw'n eu gadael yno i lygru'r amgylchedd am flynyddoedd i ddod.

Dyna pam y bydd rhaid i gynghorau lleol fod yn ofalus iawn cyn torri'n ôl yn ormodol ar gasgliadau sbwriel neu, fwy fyth, i ddechrau codi amdanyn nhw.

Yn ôl rhai adroddiadau, dyna ydi pwrpas rhoi sglodion meicro mewn biniau sbwriel – er mwyn gweld faint yn union o wastraff sy'n cael ei daflu ac yna codi amdano.

Os bydd hynny'n digwydd, does dim amheuaeth mai'r effaith fydd rhagor a rhagor o sbwriel ar hyd ymylon y ffyrdd ac mewn mannau diarffordd. Ac, yn y diwedd, mwy o gost fyth i'w glirio.

Dameg y Pringles

Mi welwch chi ambell i baced Pringles wedi'u taflu hefyd. Ac mi fyddai'n ddiddorol gwybod beth sydd wedi digwydd i werthiant y pethau hynny yng nghanol Ceredigion yn ystod y mis neu ddau ddiwetha'.

Mewn ffordd, nhw oedd sêr perfformiad diweddara' criw'r Garn Fach a Theatr Troedyrhiw - gyda'r pantomeim Y Dyn Drwg a'r Da Da. Nhw oedd y bygythiad mawr i ddyfodol ffermio yn Nyffryn Aeron a'r cyffiniau.

Os na welsoch chi'r perfformiad, mae'n broses rhy hir i'w hesbonio, heblaw i ddweud bod y dwrgi yn y panto'n fodlon gwerthu dyfodol yr ardal i gyd er mwyn cael digonedd o Pringles.

Pringles o archfarchnad oedd y rheiny, wrth i reolwyr cwmni siopau anferth geisio twyllo ffermwyr i werthu eu tir iddyn nhw.

Roedd yn glasur o hiwmor gwledig ... yn dibynnu ar adnabyddiaeth reddfol y gynulleidfa o'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd. Fyddai o ddim wedi gweithio yn unman arall.

Ond, wrth gwrs, roedd yna wers ddifrifol hefyd. Nid yn unig am y peryg o archfarchnadoedd yn y dyfodol, ond hefyd am yr hyn y maen nhw eisoes wedi ei wneud.

Y wers ganolog oedd ein bod ni wedi ein twyllo eisoes. Ryden ni eisoes – gan gynnwys y ffermwyr eu hunain – yn tyrru i'r archfarchnadoedd i wneud ein siopa, er ein bod ni wedyn yn eu beirniadu.

Y felltith, wrth gwrs, ydi fod popeth bellach wedi ei gerio ar gyfer eu llwyddiant nhw. Mae cyfleusterau parcio'n cael eu trefnu wrth eu hymyl nhw, mae ffyrdd yn cael eu newid er mwyn ei gwneud yn haws i'w cyrraedd ... a thydyn nhw ddim yn talu cymaint o drethi o'r herwydd â siopau bach canol y dref.

Dyna pam ei bod hi mor anodd osgoi'r siopau mawr yn llwyr. Mi fyddwn ni i gyd yn mynd yno. Ond, yn Llanbed, diolch byth, mae yna gyfle i siopa fel arall hefyd – o gig, i fara a llysiau, o fwyd ci i offer trydan, mae'n bosib gwneud dewis arall.

Hyd yn oed i brynu Pringles.

BYNTIN

urdd.org

Du a Leim
ar gyfer croesawu pobl Cymru i Geredigion

urdd.org

AR WERTH NAWR

10 metr am £10!

Drwy ffonio:
Nia Davies – 01570 480015 neu Mair Jones 01545 570150
Penwythnos gwisgo Ceredigion yn ddu a leim yw **Mai 1af.**
Felly, prynwch eich byntin NAWR…..!!!

Mynd amdani - Canlyniadau'r Rhanbarth

Ymddiheuriad: Yn anffodus roedd un canlyniad wedi ei gadael allan o Adroddiad yr Eisteddfod Gylch yn ein rhifyn diwethaf. **Unawd Alaw Werin Bl. 10 - 19 oed:** 1. Sioned Hatcher, Aelwyd Llambed. 2. Elliw Dafydd, Aelwyd Llambed.

Canlyniadau Llwyfan Cynradd ac Uwchadd

Unawd Bl. 2 ac Iau: 2il Joseph Saunders, Ysgol Ffynnonbedr. **Unawd Bl. 3 a 4:** 1af Charlotte Saunders, Ysgol Ffynnonbedr. **Unawd Bl. 5 a 6**: 2il Mared Owen, Ysgol Carreg Hirfaen. **Parti [Adran] Bl. 6 ac Iau:** 1af Adran Llambed. **Parti Unsain Bl. 6 ac Iau i ysgolion dros 50:** 1af Ysgol Carreg Hirfaen. **Côr Bl. 6 ac Iau ysgolion dros 150 o blant:** 2il Ysgol Ffynnonbedr. **Parti Deulais**: 1af Ysgol Ffynnonbedr. **Unawd Merched Bl. 7 – 9**: 2il Meleri Davies, Aelwyd Llambed. **Unawd Bechgyn Bl. 7 – 9:** 2il Aron Dafydd, Aelwyd Llambed. **Unawd Merched Bl. 10 a dan 19 oed:** 3ydd Elliw Dafydd, Aelwyd Llambed. **Unawd Bechgyn Bl. 10 a dan 19 oed:** 1af Aled Wyn Thomas, Aelwyd Llambed. **Deuawd Bl. 10 a dan 19 oed:** 1af Aled a Christopher, Ysgol Gyfun Llambed. **Unawd allan o Sioe Gerddorol Bl. 10 a dan 19 oed:** 2il Elliw Dafydd, Aelwyd Llambed. **Parti Deusain [Adran] Bl. 9 ac Iau:** 1af Aelwyd Llambed. **Parti Merched Bl. 7, 8 a 9:** 3ydd Ysgol Gyfun Llambed. **Parti Bechgyn Bl. 7, 8 a 9:** 2il Ysgol Gyfun Llambed. **Côr S.A. Bl. 7, 8 a 9:** 3ydd Ysgol Gyfun Llambed. **Côr Bechgyn T.B. Bl. 13 ac Iau:** 2il Ysgol Gyfun Llambed. **Ensemble Lleisiol Bl. 13 ac Iau:** 3ydd Ysgol Gyfun Llambed. **Cyflwyno Alaw Werin Bl. 6 ac Iau:** 2il Mared Owen, Ysgol Carreg Hirfaen. **Cyflwyno Alaw Werin Bl. 7, 8 a 9:** 1af Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambed. **Unawd Llinynnol Bl. 6 ac Iau:** 3ydd Julianna Barker, Ysgol Carreg Hirfaen. **Grŵp Cerddoriaeth Creadigol Bl. 6 ac Iau:** 2il Ysgol Llanwnnen. **Unawd Llinynnol Bl. 7 – 9:** 3ydd Llion Thomas, Aelwyd Llambed. **Unawd Piano Bl. 7 – 9:** 3ydd Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambed. **Unawd Pres Bl. 7 – 9**: Joshua Hardy, Ysgol Gyfun Llambed. **Unawd Telyn Bl. 7 – 9**: 2il Lowri Elen Jones, Aelwyd Llambed. **Unawd Piano Bl. 7 – 9:** 3ydd Sioned Davies, Ysgol Gyfun Llambed. **Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4:** 2il Elin Davies, Ysgol Cwrtnewydd. **Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6:** 2il Meirion Siôn Thomas, Adran Llambed. **Unawd Cerdd Dant Bl. 7 – 9**: 2il Lowri Elen Jones, Aelwyd Llambed. **Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed:** 2il Elliw Dafydd, Aelwyd Llambed. **Parti Cerdd Dant dan 19 oed:** 1af Aelwyd Llambed. **Dawns Werin Bl. 4 ac Iau:** 2il Ysgol Llanwnnen. **Dawns Werin Bl. 6 ac Iau ysgolion dros 100 o blant:** 2il Ysgol Ffynnonbedr. **Dawns Greadigol Bl. 6 ac Iau:** 1af Ysgol Cwrtnewydd. **Dawns Cyfrwng Cymysg Bl. 6 ac Iau**: 1af Ysgol Ffynnonbedr. **Dawns Cyfrwng Cymysg Bl. 7 a dan 19 oed:** 2il Ysgol Gyfun Llambed. **Dawns Disgo Unigol Bl. 6 ac Iau:** 2il Charlotte Saunders, Ysgol Ffynnonbedr. **Grŵp Dawnsio Disgo Bl. 6 ac Iau:** 2il Ysgol Ffynnonbedr. **Dawns Disgo Unigol Bl. 10 a dan 19 oed**: 2il Mererid Rees, Ysgol Gyfun Llambed. **Llefaru Unigol Bl. 5 a 6:** 2il Meirion Siôn Thomas, Adran Llambed. **Grŵp Llefaru Adran Bl. 6 ac Iau:** 3ydd Adran Llambed. **Llefaru Unigol Bl. 7 – 9:** 3ydd Lowri Elen Jones, Aelwyd Llambed. **Grŵp Llefaru Adran Bl. 9 ac Iau:** 2il Aelwyd Llambed. **Llefaru Unigol Bl. 10 a dan 19 oed**: 2il Elliw Dafydd, Aelwyd Llambed. **Grŵp Llefaru Bl. 10 a dan 19 oed:** 3ydd Ysgol Gyfun Llambed. **Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau [dysgwyr]**: 1af Maryyah Abdul Halim, Ysgol Ffynnonbedr. **Llefaru Unigol Bl. 3 a 4[dysgwyr]:** 3ydd Lewis Jarvis-Blower, Ysgol Llanwnnen. **Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau [dysgwyr]**: 3ydd Ysgol Ffynnonbedr. **Llefaru Unigol Bl. 7 – 9 [dysgwyr]:** 2il Max Zinn, Ysgol Gyfun Llambed. **Grŵp Llefaru Bl. 7, 8 a 9 [dysgwyr]:** 1af Ysgol Gyfun Llambed. **Ymgom Bl. 6 ac Iau:** 2il Ysgol Cwrtnewydd. **Cân Actol Bl. 6 ac Iau [Ysgolion hyd at 100 o blant]**: 2il Ysgol Llanllwni. **Ymgom Bl. 7, 8 a 9:** 2il Ysgol Gyfun Llambed. **Monolog Bl. 10 a dan 19 oed**: 1af Elliw Dafydd, Aelwyd Llambed.

Canlyniadau Celf, Dylunio a Thechnoleg

Gwaith Lluniadu 2D Bl. 2 ac iau: 2il Siriol Howard, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; 3ydd Marnie Tiffany, Ysgol Gynradd Y Dderi. **Gwaith Lluniadu 2D Bl. 3 a 4:** 1af Daniel Evans, Ysgol Gynradd Y Dderi; 3ydd Sasha Evans, Ysgol Gynradd Llanwnnen. **Gwaith Lluniadu 2D Bl. 5 a 6:** 3ydd Zoe Jones, Ysgol Gynradd Y Dderi. **Gwaith Creadigol 2D Bl. 2 ac iau**: 1af Ruth Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Gwaith Creadigol 2D Bl. 3 a 4:** 3ydd Madeleine Smith, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd. **Gwaith Creadigol 2D Bl. 5 a 6:** 3ydd Michael Haydon, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd. **Gwaith Creadigol 3D Bl. 3 a 4**: 2il Mari Lewis, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Gwaith Creadigol 3D Cywaith Bl.2 ac iau:** 2il Grwp Ffynnonbedr, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Gwaith Creadigol 3D Cywaith Bl. 5 a 6:** 3ydd Grwp Cwrtnewydd, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd. **Serameg / Crochenwaith Bl. 3 a 4:** 1af Holly Cooper, Ysgol Gynradd Llanwnnen. **Serameg / Crochenwaith Bl. 9:** 1af Sion Evans, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. 2il Dion Mason George, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan . 3ydd Lauren Clark, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. **2D Bl. 6 ac iau (Angh. Arbennig)(C):** 2il Jamie Lamport, Ysgol Gynradd Llanwnnen. **3D Bl. 6 ac iau (Angh Arbennig)(C):** 2il Dylan Thomas, Ysgol Gynradd Llanwnnen. **3D dan 25 oed (Angh. Arbennig) (D):** 2il Joshua Hemming, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. 3ydd Dylan Jenkins, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. **Argraffu Bl. 2 ac iau**:1af Megan Davies, Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen. 2il Danielle Jones, Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen. **Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 3 a 4:** 1af Owen Schroder, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd. **Dyluniad 2D Bl 7-9:** 1af Naomi Howson, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. 2il Ryan Edwards, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. 3ydd Olivia Tamba, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. **Pyped Bl. 2 ac iau:** 2il Mererid Thomas, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Pypedau Cywaith Bl. 2 ac iau:** 2il Grwp Ffynnonbedr, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Mwgwd neu Byped Bl 9:** 1af Gwawr Hatcher, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. **Print Du a Gwyn Bl. 2 ac iau:** 2il Lian Evans, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. 3ydd Rhys Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Print Du a Gwyn Bl. 3 a 4:** 1af Lowri Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Print Du a Gwyn Bl. 5 a 6:** 3ydd Cerian Jenkins, Ysgol Gynradd Llanwnnen. **Print Lliw Bl. 2 ac iau:** 3ydd Maryyah Abdul Halim, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr **Print Lliw Bl. 3 a 4:** 1af Gwenllian Jenkins, Ysgol Gynradd Llanwnnen. **Printiau Du a Gwyn Bl. 3 a 4:** 2il Lowri Davies, Adran Llambed. **Printiau Du a Gwyn Bl. 5 a 6:** 3ydd Cerian Jenkins, Ysgol Gynradd Llanwnnen. **Printiau Lliw Bl. 2 ac iau:** 3ydd Aleksander Szeterlaic, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **DVD Oedran Uwchradd:** 1af Clwb Garddio, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. **Dylunio a Thechnoleg Bl. 3 a 4:** 2il Osian Jones, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Dylunio a Thechnoleg Bl. 5 a 6:** 1af Meirion Thomas, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. 3ydd Rhiannon Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Dylunio a Thechnoleg Cywaith Bl. 2 ac iau:** 2il Grwp Ffynnonbedr, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Creu Artefact Bl 2 ac iau:** 2il Grwp Ffynnonbedr, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Creu Artefact Bl 3 a 4:** 1af Grwp Ffynnonbedr, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. **Creu Artefact Bl 5 a 6:** 1af Grwp Rhodri, Ysgol Gynradd Y Dderi. **Creu Arteffact Bl. 9:** 1af Dewi Uridge, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. **Creu Arteffact Bl. 10 ac 11:** 1af Rhys Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. 3ydd Carwyn Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. **Creu Arteffact Bl.12 a dan 19 oed:** 2il Lowri Pugh-Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. **CAD / CAM Bl. 7-9:** 2il Gethin Morgan, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. 3ydd Gareth Morgan-Isaac, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. **CAD / CAM Bl. 10 ac 11:** 1af Carwyn Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. 2il Elin Wyn Gwyther, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. 3ydd Rhodri Pugh-Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref

Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Cefn-hafod
Gorsgoch
☎ 01570 434238
Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.
Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.
Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
☎**01570 423135**
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

COMPASS
OFFICE SUPPLIES
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 19, Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
01570 422232

Toriad Taclus
Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top
Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Llanfair Clydogau



Cawl a Chwist Sefydliad y Merched

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn y neuadd pan ddaeth tua hanner cant ynghyd i fwynhau cawl bendigedig wedi ei goginio gan Eleanor Evans, Nantymedd, a dewis arbennig o gacennau a melysfwyd wedi eu paratoi gan yr aelodau. Ar ôl y wledd dechreuwyd y chwist gyda deg bwrdd. Bu chwarae brwd gyda sgôr dda o 92 gan Gwyneth Jones, Noyadd yn ennill y wobr gyntaf. Enillydd y dynion oedd Katy James, Pandy gyda sgôr o 90. Enillwyd bwbi y merched gan Lesley Stevens, Sŵn y Ddol a',r dynion gan Jess Frith , Ty'n Lon. Enillwyr y raffl oedd Ieuan Thomas, Y Felin, Ron Coombes, Penlanmedd, Dai Jones, Llanfair Fach, Jean Entwistle, Y Siop, Simon, Graig Ddu Uchaf ac Eleri Davies, Pentre. Cafwyd noson hwylus dros ben.

Cyflwyniad

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfair a Cellan ar Fawrth 11eg yn neuadd Llanfair ac yn ystod y noson talwyd teyrnged i Mr Aneurin Davies am ei holl waith dros 21 o flynyddoedd fel clerc i'r cyngor. Cyflwynwyd anrheg o stôl gysurus iddo gan ddymuno llawer o flynyddoedd o gysur ynddi. Ar ôl y cyfarfod aeth pawb draw i Dafarn y Fishers yng Nghellan lle cafwyd lluniaeth gyda chacen arbennig i ddathlu'r achlysur. Pleser yw cael cyhoeddi fod Liz Mercer, Gelli, ym cymeryd y swydd drosodd.

Newyddion Da

Pleser oedd clywed fod David Taylor, Tŷ Capel, yn gwella'n dda ar ôl cael llawdriniaeth ar ei wddwg. Mae yn obeithiol iawn y bydd yn cael llwyr wellhad ond iddo fod yn ofalus.

Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth Eric Rayner,Silver Mine Cottage yn 85 oed. Fe gwympodd rhai wythnosau yn ôl a chael mynd i 'r ysbyty ym Mronglais gyda thoriad asgwrn y glun ond yn anffodus beth amser ar ôl hyn bu farw. Estynnwn ein cydymdeimlad a'i wraig Joan, a'r teulu.

Clwb Cant

Yr enillwyr £20 Geoff Williams, Tenby; £10 Ceris Quan; £10 Glyndwr Jones; £10 Ieuan Thomas, Y Felin; £5 John Plevy, River Bank; £5 Colin a Gwen, Brynheulog; £5 Eleanor Evans, Nantymedd; £5 Sandra Taylor; £5 Sian Seprini; £5 Rhydian Quan.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Mrs Mair Green, Nantgwyn dipyn yn well erbyn hyn yn dilyn ei llaw-driniaeth yn ddiweddar.

Mynecbost Newydd

Ewch chwi ddim ar goll pan gyrhaeddwch y siop yn Llanfair o hyn allan gan fod y mynecbost nôl yn ei le ar ôl i Gyngor Cymuned Llanfair gwblhau'r project o'i adnewyddu. Cafodd y fynecbost ddeunawfed ganrif, haearn, hanesyddol ei lanhau, atgyweirio un o'r breichiau oedd wedi torri a'i ail beintio.Cafwyd cefnogaeth y cyngor sir i wneud hyn. Trefnwyd y gwaith gan Alan Dickson a Jess Frith , dau o drigolion y pentref, gyda'r gwaith haearn a'r grefftwaith wedi eu cwblhau gan gwmni lleol.

Pwyllgor Blynyddol
CLONC
04:05:10
yn y Belle Vue,
Llanllwni
am 7 y.h.

Clwb Clonc

Ebrill 2010

£25 rhif 134:
Mrs Mali Evans,
Rylwyn, Stryd y Farchnad,
Llanybydder.
£20 rhif 20:
Rosina Carter,
28 Maes y Felin, Llambed
£15 rhif 227:
Meurig Jacob,
Gorwel, Llanybydder.
£10 rhif 471:
Mrs Joyce Williams,
Pleasant Hill, Llanwnnen.
£10 rhif 35:
Mrs Rosie Davies,
Croesmaen, Llanfihangel ar Arth.
£10 rhif 404:
Lyn Rees,
Tanrhos, Cwrtnewydd.

Gohebiaeth

Cymru Yfory

Cyfarfu criw o 25 yng Nghanolfan Merched y Wawr, nos Lun y 15fed o Fawrth, i sefydlu grŵp lleol fyddai yn ymgyrchu "Ie" pan ddaw'r refferendwm. Cafwyd cyflwyniad gan Cynog Dafis a mwy o gefndir yr ymgyrch gan Elin Wyn, Swyddog Datblygu Cymru Yfory yn genedlaethol. Derbyniwyd ymddiheuriad a nodyn o gefnogaeth gan Mark Williams yr Aelod Seneddol ac Elin Jones yr Aelod Cynulliad a Lisa Francis ar ran y Ceidwadwyr.

Penodwyd grŵp o 6 aelodau, sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pedair plaid wleidyddol. Bydd y grŵp yma yn cynrychioli Ceredigion hyd nes y bydd grwpiau lleol yn cael eu sefydlu mewn rhannau eraill o'r sir. Bwriad y grŵp fydd sicrhau fod cyhoeddusrwydd lleol i'r ymgyrch drwy'r papurau lleol a hybu ymwybyddiaeth am bwrpas y refferendwm a beth fydd oblygiadau hynny i Gymru. Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn dechrau grŵp yn lleol? Neu efallai y gallech help i gael gwybodaeth ynglŷn â chefnogwyr? Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Cymru Yfory ar www.cymru-yfory.co.uk neu gysylltu ar 02920 480880.

Alec Page Gof

Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
01570 423955

WILLIAMS
CONTRACT SERVICES
Peiriannau Hirio, Peirianwyr Cyffredinol, Gwaith Sylfaen, Menage, Tirlunio, Garddio, Ffensio, Adeiladu a Gwaith Cynnal a Chadw
Symudol: 07896747951
Ffôn: (01559)362575
Ffacs: (01559)363555
Tŷ Mari, Heol Horeb, Llandysul SA44 4JN
e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk

T. Emyr Jones Adeiladwr

Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dôl- Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Sut ydych chi? Gobeithio fod pawb yn cadw'n iawn ac yn barod i liwio llun y mis hwn. Rydw i yn grwban bach hapus iawn ar hyn o bryd ar ôl imi gael cyntaf yn yr unawd i grwbanod dan 4 modfedd.

Roeddwn wedi bod ers wythnosau lawer yn ymarfer o flaen y drych, ac wrth lwc a bendith fi ddaeth yn fuddugol eleni. Doedd Joni Jacôs, fy nghefnder, ddim mor lwcus, fe ddaeth yn ail! Rwy'n edrych ymlaen at y steddfod fawr yn Nyffryn Aeron nawr.

Wel roedd y lliwio'r un mor llwyddiannus â mi, gyda chlod arbennig yn mynd i Sioned Fflur, Tristan Dafydd ac Iestyn o Lanybydder, Owen Heath o Lambed a Joshua Peyto o Gaint. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Ellie Thomas, Crud-yrAwel, 10 Station Terrace, Llanybydder.

Llongyfarchiadau mawr ichi gyd, a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfon ataf erbyn dydd Llun, Ebrill 26ain 2010.

Enw:

Cyfeiriad:



Ellie Thomas

Enillydd y mis!

Sarn Helen

Roedd y tywydd yn rhagorol i hanner marathon Llanelli gyda 1500 o redwyr yn cymerid rhan. Glyn Price yn cael yr ail wobr vet 40, a Michael Davies yn drydydd. Cafodd Caryl Davies ras arbennig ac yn gorffen yn y 27fed safle yn y menywod agored ac yn rhedeg yn ei amser gorau o 1 awr 44 munud 48 eiliad. 8fed Glyn Price 1 awr 17 munud 54 eiliad, 9fed Michael Davies 1 awr 18 munud 41 eiliad, 58- Mark Dunscombe 1 awr 25 munud 18 eiliad, 103 – Huw Price 1 awr 28 munud 54 eiliad, 114 – Tony Hall 1 awr 29 munud 50 eiliad, 117 – Simon Hall 1 awr 29 munud 58 seconds, 159 – David Thomas 1 awr 32 munud 45 eiliad. 433 – Caryl Davies 1 awr 44 munud 48 eiliad, 1090 – Angharad Hull 2 awr 9 munud 25 eiliad, 1450 – Allen Watts 2 awr 48 munud 21 eiliad.

Cesair a gwynt oedd y tywydd i'r ras persuit yn Crymych, Sarn Helen A enillodd y ras mewn 3 awr 39 munud 19 eiliad, sef, Glyn Price, Huw Price, Michael Davies, Mark Dunscombe a Carwyn Thomas, Sarn Helen menywod yn gorffen mewn 4 awr 37 munud 35 eiliad, gyda Caryl Davies, Dawn Kenwright, Jan Jones, Dee Jolly a Angharad Hull, Sarn Helen B 4 awr 44 munud 54 eiliad, Richard Marks, Gareth Jones, Dylan Davies a Simon Hall.

Bryste oedd yr olaf o'r gyfres trawsgwlad Gwent a Mared Owen unwaith eto yn cael ras arbennig ac yn gorffen yn 12fed sale mewn 6 munud 37 eiliad. Ar ôl y pum gyfres gorffennodd Mared yn gydradd pedwerydd gyda 270 o bwyntiau. Rhagorol!

Gareth Jones yn gorffen yn 11eg yn ras Llys y Fran 50 munud 33 eiliad, 16ed Caryl Davies 53 munud 18 eiliad ac yn gyntaf menywod agored, 24ain Jan Jones 58 munud 22 eiliad a 28fed Allen Watts 1 awr 32 munud 10 eiliad.

Dydd Sadwrn roedd ras Rhayadr ugain o filltiroedd o amgylch y llynnoedd. Cafwyd canlyniadau da iawn ar ddiwedd y dydd pan fod pedwar o'r rhedwyr wedi rhedeg yn gyflymach eleni, na llynedd sef Michael Davies, Carwyn Thomas, Murray Kisbee a Caryl Davies . Tîm dynion Sarn Helen cipiodd y wobr gyntaf, Michael Davies, Carwyn Thomas, Glyn Price a Murray Kisbee. Michael Davies yn ennill y wobr gyntaf dynion 40 a Glyn Price yn pedwerydd. A'r canlyniadau: 7fed Michael Davies 2 awr 10 munud 23 eiliad, 9 – Carwyn Thomas 2 awr 12 munud 13 eiliad, 20 – Glyn Price 2 awr 17 munud 13 eiliad, 55- Murray Kisbee 2 awr 31 eiliad 7 eiliad, 56- Huw Price 2 awr 31 munud 18 eiliad, 227- Caryl Davies 3 awr 1 munud 6 eiliad, 383- Gudrun Jones 3 awr 53 munud 6 eiliad.

Bydd ras Teifi 10 yn cael ei chynnal ar ddydd Sul y Pasg, o glwb Rygbi Llambed, am ragor o fanylion ffoniwch Wendy Davies 01570 481153.

Eisteddfod Rhyng-Golegol 2010

Ers cwpwl o fisoedd bellach, mae'r Eisteddfod Rhyng-Golegol wedi bod ar feddyliau pob myfyriwr yn Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Abertawe a'r Drindod rhwng mynychu ymarferion a disgwyl yn eiddgar am gymdeithasu gyda ffrindiau hen a newydd. Tro Aberystwyth oedd hi i gynnal y gweithgareddau eleni, felly roedd mwy o waith gyda ni'r myfyrwyr a Steffan Prys Roberts, llywydd UMCA i drefnu diwrnod a hanner o 'Steddfota!

O'r diwedd daeth y dydd, ac roedd hi'n ddiwrnod hyd yn oed yn fwy arbennig i mi, gan fy mod wedi ennill y Gadair yn Aber, gyda'm ffrindiau o'm cwmpas i ddathlu mewn steil. Seremoni fythgofiadwy gyda banjo yn galw'r bardd i'r llwyfan, nid y corn gwlad arferol! Roedd y diwrnod a ddilynodd y seremoni yn un gwych gan ddangos doniau'r Cymry mewn diwrnod llawn difyrrwch a mwynhad. Cafwyd eitemau safonol trwy gydol y dydd lle gwelid cyraeddiadau pobl ifanc ar eu gorau. Roedd y gynulleidfa yn fôr o felyn, coch, du a glas yn brwydro am y brig.

Ar ddiwedd diwrnod gwych o gystadlu, fe ddaeth Caerdydd yn bedwerydd gyda 269 o bwyntiau, Caerfyrddin yn drydydd gyda 310. Aberystwyth yn ail gyda 459 a Bangor yn ennill y dydd gyda 490. Efallai mai 'Bangor bia Aber' ar ddiwedd y dydd, ond 'Ni oedd yma gynta'!

Bore'r Mis Du

Y bysedd sy'n troi
Ar hen, hen gloc tad-cu,
A bysedd tad-cu sy'n troi
Gyda'r cloc.

Y ddyddiau da
Llawn rhyddid
Sy'n ei lygaid llon,
A'i wefusau'n troi'n wên,
Weithiau,
Gyda stori fyw yn ei feddwl.

Ei ddwylo ynghlwm
Dros y bola llydan
A'r byse bawd
Yn mynd rownd a rownd
Gan basio'r dydd
Gyda'r cloc.

Gwelais newid yn yr hwyl
Heddiw
Heb rybudd,
Ac arafu wna'r cloc yn araf,
Araf bach
A minnau'n gaeth
Heb allu cyffwrdd â'r pendil
I roi egni newydd i'r hen drysor.

Y bysedd sy'n dal i droi
Ar hen, hen gloc tad-cu
Ond llonydd yw'r dwylo
Ym more'r mis du.

Siwan Davies,
Prifysgol Aberystwyth.

... mwy o fuddugwyr yr Urdd

Parti Llefaru Dysgwyr Ysgol Gyfun Llambed yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd.

Dawns Werin Bl. 4 ac Iau – Ysgol Llanwnnen 2il

Enfys Hatcher, Aelwyd Pantycelyn – Alaw Werin 19 - 25 oed 2il a Llefaru Unigol 19 - 25 oed 2il

Mared Owen, Ysgol Carreg Hifaen – Unawd Bl. 5 a 6 2il a Alaw Werin 2il

Côr Bl. 6 ac Iau i ysgolion dros 150 o blant – Ysgol Ffynnonbedr 2il

Parti Unsain ysgolion a dros 50 o blant – Ysgol Carreg Hirfaen 1af [yn absennol o'r llun roedd Mared Owen]

Maryyah Abdul Halim, Ysgol Ffynnonbedr – Llefaru Bl. 2 ac Iau i ddysgwyr 1af

Julianna Barker, Ysgol Carreg Hirfaen – Unawd Llinynnol 3ydd

LAS Recycling Ltd

Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni ar 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

CYFRi
CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX
* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth
01570 422305
07974 422 305

Llwyddiannau lleol ...

Brenhines C.Ff.I. Ceredigion 2010-2011 yw Sara Downes aelod o Glwb Llangeitho a Ffermwr Ifanc y Flwyddyn yw Wyn Thomas, Pontsian. Y pedair morwyn yw (o'r chwith) Caryl Haf, Llanddewi Brefi; Teleri Morris-Thomas, Pontsian; Gwennan Davies, Llanwenog a Meira Lloyd, Llangeitho.

Aelodau C.Ff.I. Llanwenog – Buddugwyr Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion a gynhaliwyd ym Mart Tregaron ar Sadwrn olaf mis Mawrth.

Y BRIFYSGOL YN ANRHYDEDDU CYMRODYR LLEOL

Cafodd y canwr lleol Timothy Evans a golygydd a chyfarwyddwr Golwg Dylan Iorwerth eu hurddo'n gymrodyr er anrhydedd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan ar Ddydd Gŵyl Ddewi.

Mae Timothy Evans yn adnabyddus am fod yn un o denoriaid gorau Cymru; yn wir, dywed rhai bod ganddo'r llais tenor gorau a gynhyrchodd Cymru erioed. Daeth Timothy yn amlwg am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, ac enillodd gystadleuaeth yr unawd tenor yn yr Eisteddfod Genedlaethol bum gwaith. Enillodd gystadleuaeth "Canwr Rhyngwladol y Flwyddyn" yn Llangollen deirgwaith, ac ar un achlysur trechodd y bas bariton byd enwog Bryn Terfel. Mae Timothy wedi diddanu cynulleidfaoedd mor bell i ffwrdd ag Awstralia, Hong Kong a'r Unol Daleithiau, yn ogystal â ledled Cymru a thrwy ei ymddangosiadau ar y teledu a'r radio.

Bu cariad Timothy at ei gartref yn gryfach na'r awydd am lwyddiant ym myd canu, a gwrthododd sawl cynnig o le mewn colegau cerdd a chontractau recordio dramor. Mae Timothy yn byw yn Llambed ac yn dal i gyhoeddi recordiau ac i fwynhau magu defaid ac anifeiliaid eraill, yn ogystal â chasglu gwydr Cranberry.

Mae Dylan Iorwerth yn newyddiadurwr uchel iawn ei barch. Wedi graddio o'r brifysgol, ymunodd Dylan â phapur newyddion y Wrexham Leader cyn symud i adran newyddion BBC Radio Cymru ac yn ddiweddarach bu'n ohebydd gwleidyddol BBC Cymru yn Llundain, ac ef hefyd a sefydlodd y papur Sul cyntaf erioed yn Gymraeg, Sulyn.

Yn 1988, cychwynnodd Dylan y cylchgrawn newyddion wythnosol Golwg, ac yn 2009 lansiwyd hefyd wele Golwg360, sy'n cynnig newyddion dyddiol o Gymru a'r byd yn Gymraeg.

Mae Dylan hefyd wedi ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol, un o'i gwobrau pwysicaf. Yn Eisteddfod Genedlaethol 2000 yn Llanelli, enillodd Dylan y Goron mewn seremoni dan arweiniad Gorsedd y Beirdd am ei gyfres o gerddi ar thema "Tywod".

I gydnabod y llwyddiannau hyn, mae'r Brifysgol yn falch o groesawu Dylan Iorwerth a Timothy Evans yn Gymrodyr Er Anrhydedd.

Aelodau Aelwyd Llambed a fu cystadlu yn Eisteddfod sir yr Urdd - o'r chwith - Meleri Davies yn ail ar yr Unawd i Ferched; Aron Davies yn ail ar Unawd Bechgyn; Llion Thomas yn drydydd ar Unawd Llinynnol a Lowri Elen yn ail ar Unawd Telyn, ail ar y Cerdd Dant a thrydydd am Lefaru.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi yn Ysgol Cwrtnewydd cyflwynir Tarian Blynyddol Cymwynaswr y Flwyddyn ond eleni bu'n rhaid rhannu'r anrhydedd rhwng Iwan Evans a Rhys Davies.

Y cymrodyr er anrhydedd newydd: Mr Timothy Evans a Mr Dylan Iorwerth.